



CYMDEITHAS EDWARD LLWYD

Y Naturiaethwr

Cyfres 2

Rhif 14

Gorffennaf 2004



Lluniau'r Clawr

Clawr blaen:

Carlwm. Conwy

Llun: Alun Williams

Clawr ôl:

Crafanc-y-frân y Dŵr. Afon Alun, Llanferres, Sir Ddinbych

Llun: Goronwy Wynne

Cymdeithas Edward Llwyd

Sefydlwyd Cymdeithas Edward Llwyd yn 1978 a hi yw Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru. Enwir y Gymdeithas ar ôl Edward Llwyd, a anwyd yn 1660 ac a alwyd yn ei gyfnod "y naturiaethwr gorau yn awr yn Ewrop".

Cymraeg yw iaith y Gymdeithas, ac y mae dros 1,200 o aelodau led-led Cymru a thu hwnt. Prif ddibenion y Gymdeithas yw astudio byd natur, yn cynnwys planhigion, anifeiliaid a chreigiau, gan hyrwyddo ymwybyddiaeth o amgylchedd a threftadaeth naturiol Cymru ac ymgyrchu dros eu gwarchod. Mae'r Gymdeithas yn:

- trefnu cyfarfodydd awyr-agored ym mhob rhan o Gymru, i astudio ac i gerdded
- cynnal cyfarfodydd gwaith cadwriaethol
- trefnu darlithoedd a chyfarfodydd cymdeithasol
- cynnal pabell ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol
- cyhoeddi Y Naturiaethwr ddwywaith y flwyddyn
- cyhoeddi Cylchlythyr ddwywaith y flwyddyn
- cyhoeddi llyfrau ar enwau Cymraeg creaduriaid a phlanhigion
- cynnig grantiau (£600) bob blwyddyn am waith gwreiddiol ym myd natur
- lleisio barn gyhoeddus ar faterion amgylcheddol
- trefnu pris gostyngol gyda nifer o siopau dillad ac offer awyr agored

Mae aelodaeth yn agored i bawb o bob oed sydd â diddordeb ym myd natur.

Dyma'r tâl blyneddol:

Unigolyn - £12

Teulu - £18

I ymaelodi neu am ragor o fanylion cysylltwch â'r Ysgrifennydd Aelodaeth:

Iwan Roberts, 3 Rhes y Rheilffordd, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 4LJ.

www.cymdeithasedwardllwyd.org.uk

Y Naturiaethwr

Cyfres 2

Rhif 14

Gorffennaf 2004

Golygydd: Goronwy Wynne, "Gwylfa",
Licswm, Treffynnon, Sir Fflint CH8 8NQ.

Cymdeithas Edward Llwyd 2003 – 04

Llywydd: Dafydd Davies

Cadeirydd: Harri Williams

Is-gadeirydd: Ieuan Roberts

Trysorydd: Ifor Griffiths

Ysgrifennydd: Megan Bevan, "Y Blewyn
Glas", Porthyrhyd, Sir Gaerfyrddin
SA32 8PR.

Ysgrifennydd Aelodaeth: Iwan Roberts,
3 Rhes y Rheilffordd, Rhuthun,
Sir Ddinbych LL15 1BT.



Y Naturiaethwr
Cyfres 2, Rhif 14, Gorffennaf 2004.

Cyhoeddir Y Naturiaethwr gan Gymdeithas
Edward Llwyd.

Dyluniwyd gan: MicroGraphics

Argraffwyd gan: Design 2 Print

Mae hawlfraint pob erthygl yn eiddo i'r awdur.


Cynnwys

	<i>tudalen</i>
Gair gan y Golygydd	3
<i>Goronwy Wynne</i>	
Cydwybod Ecolegol Clwb Golff Rhuddlan	4
<i>Austin Savage</i>	
William Condry ac Edward Llwyd	8
<i>Dafydd Dafis</i>	
Effaith pelydrau uwchfioled-B (UV-B) ar blanhigion grugaidd yn yr is-arctig	11
<i>Owain Wynne Davies</i>	
O Forgannwg i Labaun - James Motley (? 1814 - 1859)	14
<i>R. Elwyn Hughes</i>	
Norman Heatley y Biocemegydd	17
<i>Elfed H Evans</i>	
Tlws Coffa Robina Elis-Gruffydd	18
Llên y Llysiau; Y Ddraenen Wen	19
<i>Maldwyn Thomas</i>	
Dod i nabod ein gilydd - Twm Elias	24
<i>Duncan Brown</i>	
Llun Pwy?	26
Wyddoch chi.....?	27
Beth yw Clôn	27
Lleoedd a'r Bardd?	28
Y Tywydd dros Gymru, Gaeaf '03-'04	30
Llythyrau	31
Adolygiadau	33

Gair gan y Golygydd

Goronwy Wynne, Gwylfa, Licswm, Treffynnon,
Sir Fflint, CH8 8NQ.

Ffôn: 01352 780689



Edrych ymlaen

Cafwyd derbyniad da iawn i'r rhifyn diwethaf o'r Naturiaethwr – y rhifyn dathlu. Diolch yn fawr am yr ymateb calonogol.

Bellach, mae'n bryd edrych ymlaen ac mae'r

Pwyllgor Gwaith ynghanol trafodaethau brwd ynglŷn â'r cyfeiriad y dylai Cymdeithas Edward Llwyd ei gymryd i'r dyfodol a pha lwybrau y dylid eu cerdded – yn llythrennol ac yn ffigurol! Croesawn eich sylwadau.

Colli ac ennill

Mae hi'n fis Mehefin a phawb yn cyfeirio at sioe fendigedig y ddraenen wen eleni gyda'i changhennau'n llwythog o flodau gwynion. Dywedodd rhywun mai dyma'r sioe orau er 1976 pryd y cawsom haf eithriadol o boeth. Tybed a ail adroddir y patrwm eleni

Os bu'r ddraenen wen yn amlwg, prin iawn fu'r gog eleni. Bu cân y gog yn anghyffredin ers blynyddoedd bellach ond dyma'r tro cyntaf i mi fethu â'i chlywed o gwbl – a chlywais amryw yn tystio i'r un profiad. Mae'r arbenigwyr yn gyndyn iawn o gynnig eglurhad.

Cadw trefn

Daeth newydd da o gyfeiriad ystâd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Erddig, ger Wrecsam. Cafwyd trafferthion enbyd gan griwiau o fandaliaid yn achosi difrod yn yr ardal. Beth amser yn ôl, ffurfiwyd y 'Cadwraethwyr Ifanc' a bellach, mae dros 100 o aelodau rhwng 12 a 18 oed. Maent wrthi yn ffensio, yn clirio afonydd, yn plannu coed ac yn adeiladu meinciau. Mae'r cynllun yn llwyddiant ac yn ôl Steve Griffiths, y Warden, ychydig iawn o

broblemau a geir bellach gyda'r Ymddiriedolaeth a'r Cyngor Cefn Gwlad yn cydweithio'n dda i feithrin parch at yr amgylchedd.

Barn pwyr?

Bydd rhai darllenwyr yn gyfarwydd â'r enw Peter Greig-Smith, Athro yn yr Adran Fotaneg ym Mangor. Bu farw Greig-Smith y llynedd ac mewn coffâd iddo yng nghylchgrawn Cymdeithas Ecolegol Prydain (BES), dywedir iddo fod yn gryf yn erbyn yr hyn a elwir yn ymgyrchu gwyrdd (*green activism*). Credai y dylai aelodau'r Gymdeithas ymddiddori mewn materion o bwys cyffredinol ond na ddylai'r Gymdeithas fel y cyfryw fynegi barn gyfun. (*The BES should avoid expressing a corporate opinion*).

Rydw i'n synhwyro bod mwyafrif aelodau Cymdeithas Edward Llwyd yn anghytuno â'r safbwynt hwn ond, os felly, sut dylem grisialu 'barn y Gymdeithas' a sut dylai'r farn honno gael ei mynegi? Eto, dowch â'ch sylwadau.

Beth yw naturiaethwr?

Meddyliais mai da o beth fyddai chwilio yn ffynhonnell pob gwybodaeth – Geiriadur y Brifysgol – a darllenais mai naturiaethwr yw 'Arbenigwr mewn bioleg a swogel'. Ow! Ow! a minnau dan yr argraff bod bioleg yn cynnwys astudiaeth o'r planhigion a'r anifeiliaid, - botaneg a swogel. Druan ohonom! Ond mae gwaeth i ddilyn. Yn y print mân, cyfeirir ni at y llyfryddiaeth ac yng ngwaith William Thomas, *Myfyrdodau Diweddaraf Mr Baxter ar Farwolaeth* (1792), tud. 21, darllenwn 'Nid yw natauriaethwyr yn gwybod beth yw enaid'. Ni fedr hyd yn oed eich golygydd gynnig ateb i hyn yna!!

G.W.



Cydwybod Ecolegol Clwb Golff Rhuddlan

Austin Savage

Perthi, Ffordd y Bryn, Llanelwy

Cyn ymddeol, bu'r awdur yn bennaeth adran Byrwydeg

Ysgol Uwchradd Glan Clwyd



Madfall gribog fenywaidd wedi'i chodi o'i gaeafgwsg mewn twll ger tap dŵr.

Cynlluniwyd y cwrs gwreiddiol yn 1930 ar ystad Bodrhyddan, cartref yr Arglwydd Langford. Yn ddiweddarach yn 1962 ac 1985, ail gynlluniwyd ef gan benseiri cyrsiau golff – Hawktree. Parcdir yw natur mwyaf cyffredin y cwrs gyda glaswelltir garw a choetir yn gwahanu'r lleiniau chwarae. Rheolir y cwrs gan dîm o bedwar o ddynion a fydd, yn eu tro, yn derbyn cyngor rheolaidd gan gwmni o agronomegwyr. Cynhelir nifer o gystadlaethau cenedlaethol a lleol yn flynyddol ac, fel teyrnged i waith da'r tîm rheoli, daw llu o olffwyr i ymweld â'r clwb.

O ganlyniad i'r gwaith caled a wnaed dros y naw mlynedd ddiwethaf, mae cymeriad y cwrs wedi newid yn ddramatig. Sylweddolwyd pwysigrwydd cadw cydbwysedd cywir rhwng y materion amgylcheddol a'r pethau hynny sy'n caniatáu i'r aelodau gael chwarae'r gêm mewn modd plerusus a theg. Rhaid

sylweddoli mai un o gyfareddau golff yw'r amgylchedd y chwaraeir y gêm ynddo. Mae cwrs Rhuddlan wedi'i fendithio yn hyn o beth ac mae'r safle'n parhau i ddatblygu ac aeddfedu.

Ers canol yr 80au, plannwyd dros wyth mil o goed ar y cwrs ac, ar ben hynny, crewyd sawl llyn a ffos newydd yn ogystal â mwy o laswelltir garw. Mae hyn nid yn unig yn cyflwyno nodweddion esthetig a strategol i'r cwrs golff ond mae hefyd yn creu cynefinoedd amhrisiadwy ar gyfer y bywyd gwyllt.

Daw'r rhan fwyaf o'r diddordeb ecolegol o'r coetiroedd, y glaswelltiroedd, y llynnoedd a'r ffosydd ar y cwrs. Yma, mae sawl cytref i'r fadfall gribog (*Triturus cristatus*). Maent eisoes yn cael eu diogelu dan ddeddfau cadwraeth Ewrop. Yma hefyd ceir cartref y rhywogaeth brin honno – llygoden y dŵr (*Arvicola terrestris*). Mae'r clwb yn dra ymwybodol o'i gyfrifoldeb i ofalu am y rhywogaethau hyn.

Wrth gerdded ar hyd y cwrs ar ddechrau mis Chwefror, gwelwyd nifer o adar



Coetir gydag amrywiol goed o'r un oed. Torrri y glaswellt rhyngddynt yn rheolaidd



diddorol gan gynnwys bwncath (*Buteo buteo*), nico (*Carduelis carduelis*), titw mawr (*Parus major*) a'r socan eira (*Turdus pilaris*). Wrth gwrs, daw llawer o adar eraill i ymweld â'r cwrs yn ystod misoedd yr haf pan fydd ysgall, dail tafol a ffynonellau eraill o fwyd yn gyffredin. Mae cwingod i'w gweld mewn rhai ardaloedd ar y cwrs ac, er iddynt fod yn bla i'r golffiwr, mae eu presenoldeb yn arwydd o amgylchedd iach lle mae mwy o fywyd gwyllt diddorol ond llai amlwg i'w weld. Mae'r llynnoedd a'r pyllau yn cynnal adar sy'n nythu, sef yr alarch dof (*Cygnus olor*), cwtiar (*Fulica atra*), iâr ddŵr (*Gallinula chloropus*), hwyaden wyllt (*Anas platyrhynchos*) a nifer o ymwelwyr eraill.

Mae'r glaswelltir ar hyd a lled y cwrs yn cynnal nifer o rywogaethau o weiriau yn ogystal â rhywogaethau eraill fel dail tafol, ysgall, danadl poethion, llau'r offeiriad, dail surion, briwydd felen a chribau'r panwr. Plannwyd cennin Pedr ac eirlisiau i roi lliw ar ddechrau'r tymor.

Yn y llynnoedd, y ffosydd a'r nentydd, mae amrywiaeth eang o blanhigion d_r gyda rhywogaethau fel cynffon y gath (*Typha latifolia*), gellhesg (*Iris pseudacorus*), lili'r dŵr (*Nymphaea alba*), brwynen babwyr (*Juncus effusus*), llyisiau'r angel (*Angelica sylvestris*) yn gyffredin iawn.

Mae'r mwyafrif o'r planhigfeydd ar y cwrs yn cynnal rhywogaethau fel ffawydd, derw, ynn, gwern a phoplys gwyn. Cyflwynwyd y coed hyn rhwng canol a diwedd yr 80au ond ni chawsant fawr ddim rheolaeth ers hynny. Plannwyd y coed rhwng 2m a 3m oddi wrth ei gilydd ac, erbyn heddiw, mae eu brigau yn dechrau cyffwrdd. Gan fod golffwyr yn dueddol o gwyno pan fydd eu peli'n crwydro i'r garw, mae'r glaswelltir ac ati sy'n tyfu o dan y coed, yn cael ei dorri'n wythnosol er mwyn cyflymu'r gêm. Heblaw hyn, mae cylch o tua 50cm o gwmpas pob bonyn yn cael ei chwistrellu â chwynladdwr. Mae'n rhaid i'r clwb ddarparu ar gyfer amrediad eang o safonau ac felly, mae'n bwysig peidio ag amharu'n ormodol ar lif y chwarae. Mae'r clwb yn



Ardal a gliriwyd y tu cefn i lawnt 4. Gadewir rhai o'r coed a dorwyd i ffurfio cynefinoedd i anifeiliaid a ffyngau.

sylweddoli na fydd y planhigfeydd hyn yn datblygu'n goetiroedd tymor hir gan iddynt gael eu plannu ar yr un pryd ac felly, byddant yn marw yr un pryd hefyd.

Yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf, bwriedir ail stocio'r coetiroedd hyn â chymysgfa debyg o rywogaethau i greu ail gnwd o goed i ffurfio sail ar gyfer coetir parhaol – un a fydd yn fwy naturiol i'r llygad. Ar ôl tua 7-10 mlynedd, bwriedir teneuo tua 25% o'r coed ac ail blannu eto i ffurfio trydydd cnwd. Mae'n dra thebyg na fydd rhaglen o'r fath yn plesio pob golffiwr gan na fydd hi'n bosibl i'r staff dorri'r garw o gwmpas y coed. Ond y gobaith yw, gydag addysg a chyfathrebu priodol, y daw'r aelodau yn fwy gwerthfawrogol o'r gwaith hwn heb boeni'n ormodol am gollu ambell bêl fydd yn crwydro! Wrth gynyddu'r gosb, dylai safon y chwarae godi! Mae'r glaswelltir garw yn cynnig cynefin ecolegol gwerthfawr i'r anifeiliaid diagswrncefn gan ffurfio coridorau pwysig rhwng ardaloedd cadwraethol eraill.

I'r dde o'r pedwerydd twll, ceir rhesi o goed Leylandii (*Cupressocyparis leylandii*) a blannwyd yn wreiddiol i greu cysgod ac i guddio'r pedwerydd twll rhag y pumed ti. Yn anffodus, nid oes fawr o werth ecolegol yma ac, ar ben hynny, ni fyddant yn byw yn hir ychwaith. Felly, dros y blynyddoedd nesaf, bwriedir clirio grwpiau o 4 neu 5 ar y tro ac ail stocio â choed brodorol i greu adeiladwaith amrywiol rhwng y coed newydd heb amharu'n ormodol ar y sgrin bwysig.



Y tu cefn i'r pedwerydd lawnt, roedd masarnen fawr (*Acer pseudoplatanus*) a nifer o goed prysg bychain yn tyfu. Cafwyd caniatâd yr awdurdodau i'w clirio er mwyn i'r lawnt gael mwy o haul a gwynt. Yn ddiôs, daw hyn â gwelliant amlwg i'r wyneb pytio a hefyd daeth nant fechan i'r golwg wedi blynyddoedd o fod yn gudd. Gosodwyd y coed a dorwyd yn sypiau i ffurfio cynefinoedd i anifeiliaid diasgwrn-cefn ac i ffyngau a hefyd fel llochesi i'r fadfall gribog.

Cyn cyrraedd y chweched twll, ceir ffos sydd â photensial o fod yn goridor ecolegol o bwys. Mae angen gorchudd o lystyfiant i'r madfall a'r anifeiliaid dyfrol eraill wrth iddynt symud rhwng ardaloedd bridio, bwydo a gaeafgysgu. Heb y math hyn o briffyrdd ecolegol, collir gwerth safleoedd gwerthfawr eraill ar hyd a lled y cwrs. Yn hytrach na thorri'r tyfiant oddi mewn i'r ffosydd yn rheolaidd, bwriedir gadael i sribedi o laswellt garw ddatblygu o boptu'r ffos gyda'r bwriad o'i dorri ddwywaith y flwyddyn, unwaith ar ddechrau'r gwanwyn ac yna yn ystod yr hydref gan obeithio na fydd y madfall yn bresennol. Hefyd, gall hyn fod o fudd i'r golffwr wrth i'r glaswellt hir rwystru'i bêl rhag rhedeg i mewn i'r ffos. Gall gormod o dorri ar y llystyfiant arwain at erydiad y cloddiau gan na fydd y gwreiddiau'n ddiogel cryf i rwymo'r pridd.

Estynnwyd llyn bychan i uno â'r ffos. Ar hyn o bryd, mae'r llyn yn llawn cynffon y



Llyn bychan sy'n llawn cynffon y gath wedi'i ymestyn i uno â ffos.



Rhan o un o'r ffosydd sy'n cynnig cynefinoedd gwerthfawr i fywyd gwyllt. Bwriedir ail blannu lle bo angen.

gath ac er eu bod yn blanhigion o ddiddordeb ecolegol, maent yn hynod o ymosodol. Felly, trefnir i glirio tua 60% ohonynt bob tair blynedd rhwng mis Hydref a mis Chwefror pan na fydd y madfallod yn y llyn.

Mae'n fwriad plannu mwy o ddrain a choed bychain eraill ar hyd ymylon y ffos uwchlaw'r llyn. Mae'r coed sydd yno eisoes yn cynnig cynefinoedd gwerthfawr i fywyd gwyllt. Bwriedir plannu mwy o'r rhywogaethau canlynol i gymryd lle'r rhai sy'n marw'n naturiol: draenen wen (*Crataegus monogyna*), draenen ddu (*Prunus spinosa*), coed crabas (*Malus sylvestris*), masarnen fach (*Acer campestre*), collen (*Corylus avellana*) a'r gelynen (*Ilex aquifolium*).

Ger y degfed twll, crewyd llyn sydd erbyn hyn yn ffurfio nodwedd drawiadol ac sy'n sicr o wella eto wrth ddatblygu. Yn ystod haf 2003, roedd llawer o algau yn tyfu drwy'r llyn gan fod gormod o faetholynnau yn y dŵr ar ôl cloddio. Yn ystod y pum mlynedd nesaf, dylai'r detritws, fydd yn hel ar waelod y llyn greu hidlydd naturiol i arafu twf yr algau.

Mewn sawl man ar y cwrs, ceir ardaloedd o laswelltir garw iawn – ardaloedd sy'n hynod o amhoblogaidd gan bawb ond y chwaraewyr gorau! Ond, er mwyn codi safon y chwarae, mae'n fwriad gan y clwb adael i'r mannau hyn dyfu'n wyllt a'u torri unwaith y flwyddyn yn unig!





Llyn newydd ger y degfed twll sydd eisoes yn nodwedd drawiadol.

Rhwng twll 16 a thwll 18, plannwyd planhigfa o binwydd (*Pinus sylvestris*), ac ymhen 8 mlynedd mae'n fwrriad i deneuo 30% a phlannu mwy ohonynt. Yn union fel y gwneir gyda phlanigfeydd o goed collddail, ail blennir eto ymhen 8 mlynedd arall er mwyn creu coetir cynladwy tymor hir.

Ger yr unfed lawnt ar bymtheg, mae glaswelltir sy'n llawn ysgall a dail tafol. Mae'r rhain yn chwyn ardystiedig ac felly, mae'r clwb yn gyfrifol am eu rheoli. Ar y llaw arall, fodd bynnag, mae'n rhaid sylweddoli eu bod yn bwysig fel bwyd i adar megis y bras melyn (*Emberiza citronella*), pila gwyrdd (*Carduelis spinus*), llinos werdd (*Carduelis chloris*), nico (*Carduelis carduelis*) a'r ji-binc (*Fringilla coelebs*). Felly, ceisir cadw ardaloedd eraill tebyg i'r rhain oddi mewn i'r cwrs ond gan fod tir amaethyddol gerllaw, cânt eu rheoli unwaith y flwyddyn – gan gofio am bresenoldeb y madfall gribog!

Gan fod cymaint o laswelltir garw oddi mewn i'r cwrs, mae'n anodd rheoli pob ardal yn ystod un flwyddyn. O'u hesgeuluso am gyfnodau hir, gall yr ardaloedd hyn ddangos patrwm o olyniaeth naturiol. Yn gyntaf, daw'r ysgall, dail tafol a chwyn dail llydan; yna, daw'r mieri a phrysgwydd eraill cyn troi yn goetir o fedw

a masarn. Mae'r clwb yn ceisio eu rheoli o leiaf unwaith bob tair blynedd.

Ar ôl tocio, mae'n hanfodol clirio'r toriadau i'w rhwystro rhag dadelfennu yn y fan a'r lle gan arwain at ffrwythlonni'r pridd ac o ganlyniad, ffafrio tyfiant gweiriau bras megis maswellt (*Holcus lanatus*), byswellt (*Dactylis glomerata*) a rhonwellt (*Phleum pratense*). Er bod iddynt werth ecolegol, mae natur eu dail yn dueddol o ddal y peli golff hynny sy'n crwydro oddi ar y llwybr cul ac o ganlyniad, yn arwain at arafu'r chwarae.

Mae cadw cydbwysedd yn bwysig wrth chwarae golff ond yr un mor bwysig yw cadw cydbwysedd rhwng hwyl y chwarae a dyfodol y bywyd gwyllt sydd o gwmpas.



William Condry ac Edward Llwyd

Dafydd Dafis

Ganed William Moreton Condry M.A. M.Sc. (1918-1998) ar gyrion dinas Birmingham ond treuliodd y rhan helaethaf o'i fywyd yng Nghymru. Roedd yn llenor, dyddiadurwr, darlledwr, darlithydd a chadwraethwr o fri ac yn un o'r naturiaethwyr gorau y cefais y fraint o fod yn ei gwmni. Roedd ei gariad tuag at Gymru'n angerddol a pharchai iaith a diwylliant y Cymry. Fel edmygydd mawr o Edward Llwyd, sonia'i'n aml amdano yn ei lyfrau:

Pathway to the Wild (Faber a Faber 1975) (tud. 23, 24)

“Mae'r Llwyd hwn yn adnabyddus i holl bobl Cymru (os nad yw, fe ddylai fod) ond, ofnaf i ychydig iawn o Saeson. Roedd yn nodweddu'r math o Gymro (dewch ar ei draws dros y byd) sydd wedi'i orfodi gan amgylchiadau i fynd i fyw y tu allan i Gymru ond sy'n treulio gweddill ei fywyd gyda gwlad ei eni yn feunyddiol yn ei feddyliau. Roedd yn llysieuidd pan oedd y wyddor fotaneg prin yn bod (ganed ef yn 1660, y flwyddyn a welodd gyhoeddi'r rhestr gyntaf o blanhigion sir ym Mhrydain - *Flora of Cambridgeshire*, John Ray). Bu Llwyd yn fyfyrwr yn Rhydychen ac yna yn geidwad yr Amgueddfa Ashmole yno. Ond, o'i ddyddiau fel myfyrwr ymlaen, treuliodd gymaint o amser ag y gallai yng Nghymru yn ddiwyd yn casglu gwybodaeth am ei flora, ei ffawna, ei ffosiliau, ei henebion, ei llên gwerin a'i hiaith. Roedd yn gerddwr engw ar y bryniau a'r gŵr cyntaf, mwy na thebyg, i wybod am fanylion yr ucheldir o'r Wyddfa i Bumlumon. O'r diwedd, ymgymerodd ag ysgrifennu gwyddoniadur chwe chyfrol o'r byd Celtaidd gan gael peth o'r wybodaeth o holiaduron a ddosbarthwyd ar ei gyfer

drwy blwyfi Cymru gan fyfyrwyr Rhydychen yn ystod eu gwyliau. Efallai bod Llwyd yn arfer cymeradwyo ei gyfeillion, wrth iddynt deithio yng nghanolbarth Cymru, i fynd i aros gyda'i fodryb yn Ynys Greigiog. Daeth John Angerstein, mynyddwr o Sweden yma yng nghwmni gwas Llwyd. O ganlyniad, cawn ei fodryb Elizabeth yn cwyno i'w nai. ‘Hwn yw'r pedwerydd llythyr a ysgrifennais atoch ers i'r gŵr bonheddig a'ch gwas ddod i Gymru ac i mewn i Geredigion ac roeddech chi'n eu cymeradwyo i ni ac roedden ni'n eu derbyn i'n cartref a'u croesawu er eich mwyn chi ac anfonodd fy mrawd goron bob un i chi ynghyd â dau lythyr ond nid oedd gennyh y moesgarwch na'r parch i ysgrifennu llinell atom i ddweud a oeddech wedi'u derbyn ai peidio.”

Roedd un gyfrol o wyddoniadur Llwyd i fod ar fyd natur ond bu farw cyn iddo ei dechrau hyd yn oed; yn y diwedd, collwyd yr holl nodiadau ar ei chyfer mewn dau dân, un mewn siop rhwymwr llyfrau, y llall mewn plasty yng Ngheredigion, sef Hafod Uchdryd. Felly, gadawyd ni i feddwl yn drist beth a allai gŵr o athrylith Llwyd ('y naturiaethwr gorau yn Ewrop' fel y'i disgrifiwyd gan gyfoeswr) adrodd am natur yng Nghymru tua'r flwyddyn 1700. Mor hudolus fyddai cael ychydig o nodiadau ganddo ar adar genau'r afon Dyfi neu fflora Cors Fochno, dau le y gwyddai'n dda amdanynt; oherwydd, pan gyhoeddodd John Ray ei restr o blanhigion Prydeinig ym 1690, cydnabu mai Llwyd oedd ffynhonnell y wybodaeth am flora, nid yn unig gogledd Cymru, ond hefyd am ardal y Borth yng Ngheredigion.

Maddeuwch i mi am ddal i sôn am Llwyd ond bu ers amser yn frwdfrydedd gen i. Mae llawer o bobl yn cael eu hanrhydeddu gan y Cymru, yn enwedig





Bill Condry - Y trydydd o'r chwith. Yr awdur yn y cefn ar y dde.

Llun: Wendy McCarthy

emynwyr, pregethwyr a gwleidyddion, ond ychydig o gydymdeimlad sydd geni tuag atynt. Ond gyda Llwyd, teimlaf yn gysurus. Denwyd ef gan gymaint o bynciau sydd o ddiddordeb i mi: ieithoedd, hynafiaethau, y gorffennol Celtaidd, byd natur, ffosiliau a chreigiau, daearyddiaeth a thopograffeg. Heddiw, pan fentraf y tu allan i glwyd gardd Ynys Edwin gan sefyll wrth ymyl ein cors fawnog ni, hoffaf feddwl y gallai Edward Llwyd, dair canrif yn ôl, fod wedi ymweld â'r tŷ hwn sy'n filltir a chwarter o'r man lle roedd ei fodryb yn byw yn Ynys Greigiog. Os felly, gwelodd ac edmygodd, mwy na thebyg, yr union blanhigion a welwn ni yn y gors heddiw."

Wildlife, my Life (Gwasg Gomer 1995)
(tud.85,86)

Yn y llyfr hwn, mae Bill yn sôn mai Edward Llwyd oedd y cyntaf i adrodd am

y Fulfran, neu'r Bilidowcar, yn nythu ar Graig yr Aderyn, rhyw bedair milltir o'r môr ger Tywyn. Dyma sydd ganddo i'w ddweud, nid yn unig am y Fulfran ond hefyd am y planhigyn Edafeddog y Mynydd (*Antennaria dioica*):

"Mae dirgelwch botanegol yn eich disgwyl ar Graig yr Aderyn. Yn ddiweddar, yn yr ail ganrif ar bymtheg, dywedodd Edward Llwyd a soniodd gyntaf am y Fulfran yno, fod Edafeddog y Mynydd yn tyfu ar 'fynydd a elwir Cefn Llwyd, y tu ôl i Graig yr Aderyn ac yn blodeuo'n doreithiog'. Ymddengys nad yw yno yn awr, felly pryd y diflannodd a pham?"

Wildlife, my Life (tud 150,151)

Ym 1966, bu Bill yn anuniongyrchol yn ymwneud â darganfyddiad planhigyn prin. Roedd newydd orffen ysgrifennu llyfr ar



Barc Cenedlaethol Eryri ac yn y llyfr soniodd am Ffenigl Elen Luyddog (*Meum athamanticum*) (*Spignel*), planhigyn y ddôl tebyg i'r Ffenigl (*Foeniculum vulgare*) (*Fennel*) a ddefnyddir ar adegau i wella cleifion. Mae'n gyffredin ar rai o ucheldiroedd Ewrop gan gynnwys Yr Alban, ond yn anghyffredin iawn yng Nghymru. Aeth ymlaen i ddweud:

“Nodwyd dair canrif yn ôl gan Edward Llwyd a ddywedodd iddo ddod o hyd i'r planhigyn ger Llanuwchllyn, i'r de orllewin o'r Bala a bod y lle wedi'i enwi yn Bryn y Ffenigl, enw sy'n golygu, yn ôl y geiriaduron, naill ai 'Bryn y Ffenigl' (*Spignel*) neu 'Bryn Ffenigl Elen Luyddog' (*Fennel*).

Cyfaddefais yn fy llyfr i mi fethu â darganfod y safle ond gallai rhyw ymchwilydd brwd ddod o hyd iddo efallai. Ni fu'r llyfr allan ond ychydig fisoedd pan dderbynais lythyr oddi wrth ddarlennydd ar ei wyliau yn Llanuwchllyn, yn sôn ei fod nid yn unig wedi lleoli Bryn y Ffenigl ond iddo ddod ar draws Ffenigl Elen Luyddog yn doreithiog yno. Os mai hwn oedd y cofnod cyntaf o Ffenigl Elen Luyddog yn y safle hwn ers dyddiau Llwyd (a chredaf efallai mai dyna oedd), mae hyn yn record i blanhigyn a gollwyd a'i ail ddarganfod”.

Wildlife, my Life (tud. 187)

Ar y dudalen hon, sonia Bill am gael ei gyflwyno, yng Ngorffennaf 1975, i fryniau'r Breidden yn Sir Drefaldwyn. Cafodd wybod am

“ecoleg arbennig y Breidden, ei chreigiau dolerit unigryw sy'n gyfoethog yn eu calch a'u planhigion prin y gwyddys amdanynt ers dyddiau Edward Llwyd yn yr 1680au: Rhwyddlwyn Pigfain (*Veronica spicata*), Lluglys Gludiog (*Lychnis viscaria*) a Phumnales y Graig (*Potentilla rupestris*).”

The Natural History of Wales (Collins 1981)

Gofynnwyd i Bill ysgrifennu dwy gyfrol yn y gyfres enwog *The New Naturalist* sy'n ymwneud â byd natur. Y gyntaf oedd *The Snowdonia National Park* (Collins 1966) a'r ail gyfrol oedd *The Natural History of Wales* (Collins 1981). Bu'r ddau lyfr yn rhai llwyddiannus a chymaint oedd edmygedd Bill o Edward Llwyd fel iddo gyflwyno'r llyfr ar fyd natur yng Nghymru iddo. Mae ei gyflwyniad fel a ganlyn:

CYFLWYNIAD

Er cof am

EDWARD LLWYD (c.1660-1709)

a fyddai, petai wedi cael byw am ychydig o flynyddoedd yn rhagor, wedi rhoi i'r byd lyfr rhagorol ar Fyd Natur yng Nghymru



Effaith pelydrau uwchfioled-B (UV-B) ar blanhigion grugaidd yn yr is-arctig

Owain Wynn Davies

(Cefnogwyd y gwaith hwn, sef rhan o gwrs gradd ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth, drwy gymorthdal gan Gymdeithas Edward Llwyd)


Crynodeb

Bwriad yr astudiaeth hon oedd ymchwilio i ddylanwadau uniongyrchol ac anuniongyrchol pelydriad UV-B ar gynhyrchiant ffrwythau ac ar adlewyrchedd uwchfioled rhywogaethau grugaidd mewn cor-rostir is-arctig. Yn ystod cyfnod yr astudiaeth, bu pla o wyfyn yr hydref (*Epirrita autumnata*) a achosodd niwed difrifol i gymuned y rhostir; oherwydd hyn, terfynwyd ar ddatblygiad y ffrwythau mewn llawer o gymunedau'r corbrysgwydd fel nad oedd yn bosibl tynnu casgliadau pendant o'r astudiaeth. Fodd bynnag, o ddefnyddio ffotograffiaeth UV o ffrwythau penodol, yr oedd yn bosibl dangos bod ffrwythau *Vaccinium myrtillus* a gafodd eu trin dros gyfnod hir â phelydriad UV-B yn mynd yn fwy gweladwy yn yr amrediad UV. Byddant felly'n fwy amlwg i adar ac yn fwy tebygol o gael eu bwyta. Trafodir goblygiadau'r effaith hwn ac effeithiau'r pla gwyfynod ar oroesiad ac ymlediad y planhigion.

Adroddiad

Pery pryder am leihad yn nhrwch yr haen osôn. Rhagfynega adroddiadau UNEP (1998) golledion o dros 20% uwchben gogledd Ewrop yn y dyfodol heb ystyried lefelau uchaf nwyon CFC ym mlwyddyn 2000 (Shindell 1998, *Nature* 392, 589-592). Er i sawl ymchwilydd astudio sut mae'r cynnydd dilynol yn lefelau pelydriad UV-B wedi effeithio ar dwf planhigion, ni wyddys llawer am yr effeithiau ar brosesau ecosystem naturiol megis rhyngweithiadau troffig.

Mewn adolygiad diweddar (Gwynn-Jones 200, *Ecological Bulletins* 47, 77-83) trafodwyd pwysigrwydd pelydriad UV-B ar




Ffig 1. Lluniau o ffrwythau dan olau UV
Rhes flaen o'r chwith i'r dde: V. myrtillus, E. hermaphroditum a E. hermaphroditum
Rhes gefn: Rubus chamaemorus, E. hermaphroditum a V. myrtillus

ryngweithiadau planhigion-pryfed. Mae gan lawer o rywogaethau pryfed olwg trilliw i'w galluogi i ganfod ac i ymateb i belydriad tonfedd isel yn yr amrediad uwchfioled (290-400nm). Awgryma tystiolaeth y gallai pelydriad uwchfioled fod yn arwydd amgylcheddol pwysig o fewn cymunedau naturiol gan effeithio ar gyfraddau pori (Rousseaux et al 1999, *Oecologia* 116(4), 528-535) a pheillio (Dyer 1996, *Australian Journal of Botany* 44 (4) 473-488). Mae gan adar hefyd olwg trilliw a dangoswyd y dewisa (Grugiari Ddu) fwyta *Vaccinium myrtillus* (Llus) ar sail arddwysedd adlewyrchedd uwchfioled (Church S.C. et al (2001) *Journal of Experimental Biology* 204, 2491-2498).

Ffurfiodd yr astudiaeth ran o arbrawf cyfnod hir yn Abisko, Sweden (68⁰G). Mae rhostir coed llus wedi derbyn UV-B wedi'i ddwysau (cyfateb i leihad o 15% yn lefel yr osôn) yn ystod y deuddeng mlynedd ddiwethaf. Cyfrifwyd y nifer o ffrwythau planhigion *Vaccinium myrtillus* a *Vaccinium vitis-idaea* (Llusen Goch) a dyfai






Ffig 2. Ffrwythau â'u dail cyfatebol dan olau UV
Chwith i'r dde: *V.myrtillus*, *E.hermaphroditum*,
V.uliginosum a *V.vitis-idaea*

o fewn plotiau penodol. Ar yr un planhigion, mesurwyd twf y flwyddyn bresennol, twf y llynedd a mesuriadau'r dail. Hefyd, tynnwyd lluniau ffrwythau yn y labordy o dan olau UV er mwyn dileu'r adlewyrchedd arwynebol UV a hynny'n dangos pa mor weladwy fyddai'r ffrwythau i adar megis *Lagopus spp.* (grugieir) a fyddai'n debygol o'u bwyta. Wrth gymharu ffrwythau o blotiau UV-B a phlotiau safonol, roedd yn bosibl darganfod a oedd y golau UV wedi effeithio ar adlewyrchedd.


Dangosodd yr astudiaeth ostyngiad sylweddol yn y nifer o ffrwythau oherwydd niwed gan bla o larfâu *Epirrita autumnata* (Gwyfyn yr Hydref). Mae poblogaethau o *E. autumnata* yn amrywio'n rheolaidd bob rhyw ddeng mlynedd ond dim ond unwaith bob trigain mlynedd y digwydd pla. Gwelwyd lleihad yng nghynnyrch ffrwythau wrth i'r planhigion roi mwy o'u hegni i mewn i ddatblygu llystyfiant. Gwelid ffrwythau yn fwyaf cyson ar *Empetrum hermaphroditum* (Creiglusen y



Ffig 3. Ffrwythau *E.hermaphroditum* dan olau UV
Cafodd y ffrwythau yn y golofn ar y chwith eu tyfu dan
olau UV-B wedi'i ddwysau. Maent yn dangos
adlewyrchedd uwch.

Mynydd) gyda chyfartaledd o ddau ffrwyth ar bymtheg y metr sgwâr. Mewn cyferbyniad â hyn, anaml y gwelid ffrwythau ar *V.myrtillus* gyda chyfartaledd o un ffrwyth y metr sgwâr. Gan fod yr amrywiaeth yn y nifer o ffrwythau a achoswyd gan y larfâu yn fwy o lawer na'r amrywiaeth a fyddai'n debygol gan y golau UV-B, nid oedd yn bosibl defnyddio'r arbrawf fel y bwriadwyd.

Newidiwyd y dull o fesur maint y niwed i'r planhigion gan y larfâu. Aseswyd y niwed wrth ddefnyddio dadansoddiad gorchudd pwyntiol. Darganfuwyd bod colli dail ar gyfartaledd yn *V.myrtillus* yn 26%,




Ffig 4. Ffrwythau *V.myrtillus* dan olau UV
Cafodd y ffrwyth ar y dde ei dyfu dan olau UV-B wedi'i
ddwysau. Dengys y ffrwyth hwn adlewyrchedd uwch.

V.uliginosum (llusen fawr) yn 5% a *E.hermaphroditum* yn 0%. Awgrymwyd bod dail bytholwyrdd, pigfain, gwydn *E.hermaphroditum* yn llai blasus i *E.autumnata* tra bod dail cwmpol, wyffurf, meddal *V.myrtillus* yn atyniadol. Wedi nodi bod y gwyfnod yn dodwy eu hwyau ar risglyn *Betula pubescens* (Bedwen Lwyd) cyfrifwyd maint y niwed i *V. myrtillus* yn ôl pellter y brysgwydden o'r goeden. Dangosodd hyn fod cydberthynas positif rhwng y ddau. Dim ond 15% o arwynebedd y dail oedd ar ôl ar blanhigion a dyfai yn union o dan y goeden tra bod 50% ar ôl 210cm i ffwrdd o foncyff y goeden a 80% ar ôl yn y rhostir agored 300cm i ffwrdd o foncyff y goeden.

Wrth i ffrwythau *V.myrtillus* aeddfedu, roedden nhw'n datblygu haen o gŵyr drostynt. Roedden nhw'n dangos hefyd adlewyrchedd cynyddol dan olau UV-B. Awgrymwyd felly bod cysylltiad rhwng y ddwy ffaith. Cefnogwyd hyn gan bresenoldeb adlewyrchedd mwy a arddangoswyd gan ffrwythau a dyfai ar y






Ffig 5. Ffrwythau a dail *V.myrtillus* dan olau UV-B. Cafodd y ffrwyth a'r ddeilen ar y dde eu tyfu dan olau UV-B wedi'i ddwysau. Dengys y ffrwyth ar y dde adlewyrchedd uwch ond nid oes gwahaniaeth yn adlewyrchedd y dail.

plotiau UV-B. Roedd ganddynt haen dewach o gŵyr a oedd yn weladwy wrth archwilio'r ffrwythau. Gellir rhagdybio felly y byddai adar ffrwythysol yn dewis y ffrwythau aeddfed hynny a oedd yn dangos mwy o adlewyrchedd UV-B gan y byddai'r rheini'n fwy amlwg iddynt. Petai'r lefel o olau UV-B yn cynyddu yn yr amgylchedd, deuai ffrwythau megis *V.myrtillus* yn fwy amlwg i adar ac felly'n fwy tebygol o gael eu bwytia.

Mesurwyd hefyd adlewyrchedd ffrwythau *V. uliginosum*, *E. hermaphroditum*, *Rubus chamaemorus* (Mwyaren y Berwyn) ac *Arctostaphylos alpinus* (Llusen Ddu'r Arth). Roedd ganddynt adlewyrchedd llai o lawer na *V. myrtillus*. Gallai'r ffaith hon esbonio pam mae adar ffrwythysol penodol megis *Lagopus spp.* yn dewis ffrwythau *V.myrtillus* yn gyntaf fel ffynhonnell fwyd.



Ffig 6. Ffrwythau *V.myrtillus* dan olau UV. Aeddfedrewydd cynyddol o'r chwth i'r dde gan ddangos adlewyrchedd cynyddol.


Casgliad

Mae'r astudiaeth hon wedi dangos rhai o ddylanwadau uniongyrchol ac anuniongyrchol pelydriad UV-B ar

gynhyrchiant ffrwythau ac ar adlewyrchedd uwchfioled rhywogaethau grugaid mewn cor-rostir is-arctig. Dan ddylanwad lefel uwch o olau UV-B, mae ffrwythau rhywogaethau megis *V.myrtillus* yn datblygu haen dewach o gŵyr ac yn dod yn fwy gweladwy i adar megis *Lagopus spp.* oherwydd adlewyrchedd mwy.

Cynrychiola hyn fwy o hwb i lwyddiant *V.myrtillus* yn arbennig oherwydd bod gan y rhywogaeth eisoes yr adlewyrchedd mwyaf o'r planhigion a brofwyd yn yr astudiaeth. I'r newid hwn, ychwanegir yr hyrwyddo mewn cynhyrchiant blodau a ffrwythau yn *V.myrtillus* a nodwyd dan y fath amgylchiadau (Gwynn-Jones 1997 *Plant Ecology* 128 (1-2); 242-249).

Yn ychwanegol at y sefyllfa hon, ceir y ffenomen o amrywiaethau rheolaidd yn y nifer o lysysyddion a ffrwythysyddion gan



Ffig 7. Ffrwythau *V. uliginosum* dan olau UV. Cafodd y ffrwythau yn y golofn ar y chwth eu tyfu dan olau UV-B wedi'i ddwysau. Maent yn dangos adlewyrchedd uwch.

gynnwys yr achosion anaml o amgylchiadau pla. Mae'r astudiaeth hon wedi dangos sut yr effeithir ar *V.myrtillus* gan niferoedd pla o *E. autumnata*: mae'r planhigion yn ymateb i gollu dail a mwyar yn sylweddol a mwyar drwy gynhyrchu mwy o lystyfiant gyda lleihad yn natblygiad ffrwythau; po agosaf y planhigyn at foncyff bedwen, mwya'r niwed. Ym mhresenoldeb prinder ffrwythau, dosberthir hadau *V.myrtillus* yn ehangach wrth i'r ffrwythysyddion deithio ymhellach i chwilio am fwyd. Mae hyn yn agor posibiladau o gytreffu ardaloedd newydd ond gwrthbwysir hyn gan y ffaith bod prinder penodol o fwyar *V.myrtillus* yn y lle cyntaf.



O Forgannwg i Labuan – James Motley (? 1814 – 1859)¹

R. Elwyn Hughes

Pentyrch, Caerdydd

Yn ystod yr 1840au bu Alfred Russel Wallace yn gweithio fel tirfesurydd yn ardal Castell-nedd. Oherwydd natur ei waith a'i ymweliadau mynych â ffermydd anghysbell yr ardal, daeth i gysylltiad agos â bywyd gwyllt y wlad o'i gwmpas. Dechreuodd ymddiddori yn naturiaetheg ei gynefin mabwysiedig a mentrodd gymryd rhan yn y gweithgareddau naturiaethegol 'sefydliadol' a ganolwyd yr adeg honno ar Abertawe a Chastell-nedd. Cyd-ddigwyddiad rhyfedd oedd bod naturiaethwr ifanc arall hefyd wrthi ar yr un adeg ac yn yr un cylch. Roedd James Motley tua naw mlynedd yn hŷn na Wallace a chyrrhaeddodd dde Cymru rhyw ddeng mlynedd o flaen Wallace. Anodd credu na ddaeth y ddau i gysylltiad â'i gilydd ond, er hyn, nid ymddengys bod Wallace yn cyfeirio yn unman at unrhyw gyfathrach rhyngddynt. Erbyn heddiw, mae pawb wedi clywed am Wallace a'i waith mawr fel naturiaethwr ond ychydig iawn iawn o sôn sydd am Motley.

Peiriannydd mwyngloddio yn ôl ei alwedigaeth oedd James Motley. Hannai o ardal Leeds, Swydd Efrog, ond rhwng 1830 a 1850 bu'n byw yn ne Cymru lle bu'n cynorthwyo yng ngweithfeydd haearn a glo ei deulu yn ardal Maesteg. Dysgodd Motley beth Cymraeg, ymdrwythodd ei hun yn hanes Cymru a'r traddodiadau Cymreig ac yn ystod y cyfnod 1833 – 1848 bu'n crwydro yn ôl ac ymlaen ym Morgannwg a Chaerfyrddin gan gofnodi'n fanwl ei sylwadau ar lèn gwerin a naturiaetheg yr ardal.

Daeth yn adnabyddus i Lewis Weston Dillwyn y naturiaethwr sy'n cyfeirio ato yn ei *Materials for a Fauna and Flora of Swansea* (Abertawe, 1848) fel 'My friend

Mr Motley.' Yn wir, y mae Dillwyn yn ddyledus i Motley am nifer sylweddol o'r sylwadau a gofnodir yn yr adrannau naturiaethegol o'i lyfr. Mae rhai o'r sylwadau hyn yn awgrymu bod Motley wedi bod yn naturiaethegol-weithgar ym Morgannwg oddi ar 1834 – neu hyd yn oed cyn hynny – megis datganiad Dillwyn (t. 32) '*Euphorbia peplis* (Llaethlys Rhuddlas): Mr Motley informs me that, twelve years ago, this rare plant grew plentifully about Porthcawl, and fears that it has now unaccountably disappeared' neu

'Mr James Motley informs me that, in 1840, a young bird [*Buteo lagopus* – Boda Garwgoes] was shot at Margam' (t.4). Motley yw'r ffynhonnell ar gyfer rhyw bedwar ugain o'r 'planhigion prin' a nodir gan Dillwyn – o *Arabis hirsuta* (Berwr-y-cerrig Blewog) 'on the walls of Oystermouth castle' i *Zostera angustifolia* (Gwellt-y-gamlas Culddail) 'washed upon the beach in abundance at Pembrey'.

Cyhoeddwyd nodiadau gan Motley yn y [*London*] *Journal of Botany* ac yn *The Phytologist* yn 1847. Mae'r adroddiad yn *The Phytologist* (cyfrol 1 (1847) tt. 972-4) yn disgrifio dosraniad '*Centaurea nigrescens*, *Malva verticillata* and *Euphorbia peplis*' ym Morgannwg. Mae'n dwyn y cyfeiriad 'Llanelly, Carmarthenshire' ac yn dechrau gyda'r geiriau 'having resided for several years near Aberafon [sic] in Glamorganshire'. Am *Euphorbia peplis* dywed 'In 1834, when quite a boy, I found this plant growing abundantly on sand-hills, at Porth Cawl, in Glamorganshire [but] ... on my last visit to that place in 1846 it had disappeared' – hyn eto'n cadarnhau gosodiad Dillwyn (gweler uchod) bod Motley wedi bod â



diddordeb yn naturiaetheg de Cymru mor gynnar â dechrau'r 1830au. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, Motley fu'n bennaf gyfrifol am y cofnodion o blanhigion Sir Gaerfyrddin yn *Topographical Botany* H.C. Watson (1851); gwelir ei enw wrth ryw 230 o'r planhigion llai cyffredin a nodir yno – rhai ohonynt megis '*Valerianella auricula* [=rimosa] yn gymharol brin.² Ymddengys iddo gasglu nifer sylweddol o blanhigion yn ystod ei gyfnod yn ne Cymru ac yn ôl Vachell roedd ei 'herbariwm' bellach (h.y. yn 1936) ym meddiant y *Royal Institute* [sic] yn Abertawe ond nid oes unrhyw wybodaeth am hyn gan awdurdodau presennol yr *Institution* [=Amgueddfa Abertawe, bellach].³

Fel y crybwyllwyd eisoes, bu gan Motley ddiddordeb arall – sef, llên gwerin Gymreig a daeth yn bur hyddysg yn y maes. Ym 1848, cyhoeddodd gasgliad bychan o chwech o ganeuon hir *Tales of the Cymry*. Roedd y rhain i gyd yn ymwneud â phynciau penodol Gymreig – 'Cwn Annwn', 'The Canwyll Corph', 'The Ceffyl-y-dwfr' ac ati. Ei gyfeiriad ar ddiwedd y rhagair i'r llyfr yw 'Abercrave, Breconshire, Oct. 20, 1848' a'r hyn sy'n ddiddorol yw'r nodiadau helaeth a gynhwysir fel atodiad i bob un o'r caneuon. Mae'r rhain yn dadlennu nid yn unig gynefindra eang yr awdur â gweithiau prif awdurdodau cydnabydedig y dydd ar hanes Cymru ond hefyd y storfa eang o lên gwerin yr oedd wedi'i chywain yn ystod ei grwydriadau. Cynhwysai'r llyfr enwau rhyw 250 o danysgrifwyr; o'r rhain, deuai 101 o gylch Leeds a 114 o Forgannwg ac yn eu plith rhai o bwysigion cylch Abertawe – pobl fel L.W.Dillwyn ei hun a'i fab Lewis Llewelyn Dillwyn. Daeth Lewis Llewelyn Dillwyn a Motley yn gryn gyfeillion.

Ym 1849 gadawodd Motley dde Cymru a symud i Labuan (Malaysia) i ymgymryd â gwaith yn y diwydiant glo yno. Mae Labuan yn ynys fechan (tua 36 milltir sgwâr) oddi ar arfordir gogledd-orllewinol Borneo. Yn union ar ôl cyrraedd yno, dechreuodd Motley ymddiddori ym mywyd gwyllt yr ynys. Cadwai mewn cysylltiad â

Lewis Llewelyn Dillwyn trwy lythyru a thrwy anfon sbesimenau o greaduriaid byw yr ynys ato – weithiau'n sbesimenau wedi'u trin yn null y croendrefnydd (*taxidermist*), weithiau drwy anfon y crwyn yn unig. Nid oedd Lewis Llewelyn gystal naturiaethwr â'i dad Lewis Weston o bell ffordd, ond er hynny bu'n gryn gefn i weithgareddau naturiaethgol yng ngyloch Abertawe. Bu'n aelod selog a gweithgar o'r *Swansea Literary and Scientific Society*, gan draddodi sawl darlith gerbron y Gymdeithas ac, o 1847 ymlaen, bu'n gweithredu fel un o'r ddau gydysgrifennydd. Nid hollol wir felly yr awgrym 'nad oedd ganddo unrhyw ddiddordeb mewn gwyddoniaeth'.⁴

Erbyn 1852 roedd Dillwyn wedi derbyn digon o ddeunydd a gwybodaeth gan Motley i'w alluogi i draddodi darlith 'On the Natural History of Labuan' gerbron y Gymdeithas. Ni chyfeirir at Motley o gwbl wrth ei enw yn y ddarlith ond mae'r paragraff agoriadol yn cynnwys y sylw; 'Having for some years past been in constant correspondence with a friend who resides in Labuan, I have obtained a good deal of information respecting its *General History and Natural Products* ...' – sylw a adleisir gan y frawddeg olaf yn y ddarlith '... I expect when my next zoological parcel arrives they alone will afford me abundant occupation for what spare time I can command for some time to come in arranging them and determining their species.'⁵

Rhywbryd yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf cafwyd y syniad y gallai Dillwyn a Motley gydweithredu i gynhyrchu llyfr ar naturiaetheg Labuan. Awgrym pwy oedd hwn, ni wyddys. Mae'r prosectws ar gyfer y gwaith arfaethedig yn rhagweld ymdriniaeth gynhwysfawr â swoleg yr ynys: 'It is hoped that two or three parts will be published annually. Each part will contain about five sheets of letter-press, and ten or twelve coloured plates; the price will be 10s 6d [the part].' Ymddangosodd y rhan gyntaf yng Ngorffennaf 1855; cynhwysai 62 tudalen o ddeunydd testunol yn trafod



mamolion, adar ac ymlusgiaid yr ynys ynghyd â 12 o blatiau lliw trawiadol.⁶

Un rhan yn unig o'r gwaith arfaethedig a gyhoeddwyd. Ym 1855 bu farw Lewis Weston Dillwyn, ac yn yr un flwyddyn etholwyd Lewis Llewelyn, ei fab, yn aelod Seneddol dros Abertawe. Efallai bod a wnelo'r newid byd hwn â methiant Lewis Llewelyn i 'brosesu' rhagor o'r deunydd o Labuan. Bid a fo am hynny, y rhan gyntaf yn unig a gyhoeddwyd ac y mae copiâu o'r rhan honno bellach yn brin iawn.⁷ Ac yn 1859/60 lladdwyd Motley yn y terfysgoedd ym Malay.

Trosglwyddodd Dillwyn rai o nodiadau Motley ynghyd â rhai o'r crwyn adar yr oedd wedi eu derbyn oddi wrtho, i P.L.Sclater yr adarydd. Disgrifiodd Sclater hwy mewn papur yn y *Proceedings of the Zoological Society* ym 1863 – ac yn ddi-ddorol iawn, cyflawnodd waith cyffelyb yn yr un cylchgrawn dair blynedd yn ddiweddarach ar gyfer adar a gasglwyd gan Wallace yn ne America. Dyma Sclater felly yn gweithredu fel dolen-gyswllt rhwng dau naturiaethwr a oedd, ill dau, wedi dechrau ar eu gwaith naturiaethgol sawl blwyddyn ynghynt ac ar yr un adeg yn yr un ardal ym Morgannwg.

Yn y cyfamser, edwinodd diddordeb Dillwyn yn naturiaetheg ei fro er iddo gyflwyno copi (wedi'i arwyddo ganddo) o *Contributions to the Natural History of Labuan* i lyfrgell y Royal Institution of South Wales (Abertawe) – yr unig gopi y gwn i amdano mewn llyfrgell academaidd yng Nghymru. Ond nid dyna'r unig gofadaill i enw James Motley. Er ei anwybyddu'n ddybryd gan haneswyr gwyddoniaeth yng Nghymru, fe gofir amdano o hyd ym myd cyfundrefneg botaneg lle mae aelod o'r Nymphaeaceae yn dwyn ei enw – *Barclaya motleyi*, planhigyn digotylenaidd tanddwr o Ddeddwyrain Asia.

Cyfeiriadaeth

1. 1809-1859 sydd yn y Cydymaith i *Lenyddiaeth Cymru* ond 1814 – 1859 a geir ar y wefan gan Richard Morris (sy'n

dal perthynas deuluol â Motley.) Mae datganiad Motley ei fod yn 1834 'still quite a boy,' hefyd yn awgrymu dyddiad geni ryw bryd rhwng 1814 a 1818.

2. H.C. Watson *Topographical Botany ... the distribution of British Plants traced through the 112 counties and vice-counties of England, Wales and Scotland* (Llundain, 1883 [arg. 1af, 1851]). Ceir gan Watson nodyn am gyfraniad Motley 'Mr James Motley [produced] a manuscript Flora of some portion of the county of Carmarthen, chiefly, (I believe) the neighbourhood of Llanelly. This Flora was lent to me, and shortly claimed back, before Mr Motley's departure from Britain for Borneo. Notes had been hurriedly taken from it, which are now quoted as 'Motley cat[alogue].' without the chance of again referring to the Flora itself.' (t. 551)
3. E. Vachell 'Glamorgan botanists' yn *Glamorgan County History* (gol. W.M. Tattersall) cyf. 1. (Caerdydd, 1936) t. 253.
4. Sylw gan Tom Sharpe, Amgueddfa Genedlaethol Cymru – dyfynnwyd gan Ted Nield ar wefan y Gymdeithas Ddaeareg.
5. *Annual Report of the Swansea Literary and Scientific Society* 1852; mae copi llawysgrif Dillwyn o'i ddarlith ym meddiant Amgueddfa Abertawe.
6. 'Lewis Llewelyn Dillwyn' yw'r sillafiad yn y prosectws ond 'Lewis Llewellyn Dillwyn' sydd ar ddalen deitl y llyfr.
7. Nid oes copi yn y Llyfrgell Genedlaethol, nac yn llyfrgelloedd y Brifysgol.
Hoffwn ddiolch i Mike Gibbs, Amgueddfa Abertawe, am ei gymorth parod; hefyd, i Lyfrgell y Gwyddorau Biolegol, Prifysgol Bryste, am roi cyfle imi fodio drwy rifynnau cynnar o *The Phytologist*.



Norman Heatley y Biocemegydd

Elfed H Evans

Agorlys, Licswm, Sir y Fflint

Ymddengys bod ffawd yn ffafrio'r blêr a'r diffygiol weithiau. Onibai i Alexander Fleming fynd am wythnos o wyliau yn 1928 a gadael llanast ar ei ôl yn ei labordy, digon o waith y byddai fawr neb wedi clywed amdano erbyn heddiw. Bu Ernst Chain yn ffodus dros ben pan ddaeth, ddeng mlynedd yn ddiweddarach, ar draws erthygl Fleming ar penisilin yn hel llwch yn llyfrgell Ysgol Patholeg William Dunn yn Rhydychen. Ffoadur o'r Almaen oedd Chain a oedd yn gweithio ar y pryd o dan yr Athro Howard Florey yn Rhydychen. Gwelodd yn syth fod yna bosibilrwydd y gallai penisilin ladd rhai o'r bacteria mwyaf mileinig a oedd wedi poeni meddygon ers canrifoedd.

Cytunodd Florey â Chain ynglŷn â photensial penisilin ac aethant ati yn syth i geisio profi ei werth meddygol. Ond nid gwaith hawdd oedd hynny, oherwydd roedd yn rhaid cael digon o benisilin pur ar gyfer yr arbrofion. Gwyddent, fodd bynnag, fod yna fiocemegydd disglair yng Nghaergrawnt a allai eu helpu i baratoi cyflenwad ohono. Ei enw oedd Norman Heatley a gwahoddwyd ef yn y flwyddyn 1939 i ymuno â hwy yn y fenter fawr yn Rhydychen.

Ganwyd Heatley yn Woodbridge, Suffolk, yn fab i filfeddyg. Aeth i ysgol Tonbridge ac yna ymlaen i Goleg Ioan yng Nghaergrawnt lle enillodd radd PhD. Arhosodd yn yr adran ymchwil yno i astudio sut i ddefnyddio dulliau meicrocemegol i ddatrys problemau biolegol.

Y broblem gyntaf a wynebodd y tîm yn Rhydychen oedd ail ddarganfod y llwydni prin a ddarganfu Fleming. Ar ben hynny, roedd wedyn yn anodd iawn gwahanu'r penisilin o'r hylif a gynhyrchwyd gan y

ffwng. Dim ond 1ppm o'r hylif oedd yn benisilin! Ond ar ôl llwyddo i wahanu ychydig o'r penisilin, magwyd digon ohono i wneud arbrofion ym mis Mai 1940 ar wyth llygoden fach. Heintwyd yr wyth â'r bacteria *Streptococcus* a chafodd pedair ohonynt bigiad o benisilin hefyd. Bu'r pedair a gafodd y penisilin fyw ond bu farw'r lleill ymhen ychydig ddyddiau.

Un peth yw gwella llygoden, peth arall yw gwella dyn oherwydd ei fod dair mil gwaith trymach. Arwyddocâd hynny yw bod yn rhaid gweithio ar raddfa llawer ehangach i baratoi'r penisilin. Yr unig gyfarpar y gallai Heatley gael gafael ynddo at y gwaith oedd pymtheg padell-wely a gafodd gan ysbyty lleol. Ymddengys eu bod yn reit addas hefyd, oherwydd cafodd gant a hanner o rai tebyg eu gwneud gan grochendy yn Stoke. Erbyn y diwedd, roedd wedi troi ei labordy'n ffatri fechan. Er hynny, cymerodd flwyddyn gron i baratoi digon o benisilin i drin y claf cyntaf.

Plismon 43 oed oedd hwnnw a oedd ar fin marw o septisemia pan ddechreuwyd ei drin gyda phenisilin. Dechreuodd wella'n syth ac roedd y rhagolygon yn addawol dros ben. Yn drist iawn, fodd bynnag, cyn y gellid ei wella'n llwyr, darfu'r penisilin a cholodd y claf y dydd yn y diwedd. Er hynny, roeddent wedi llwyddo i ddangos, heb unrhyw amheuaeth, bod penisilin yn hynod o effeithiol yn erbyn y bacteria *Streptococcus* pan fydd wedi heintio person.

Sylweddolodd Florey a'i dîm y gallai penisilin fod o anrhaethol werth wrth drin clwyfau ar faes y gâd ac felly, rhaid oedd edrych yn ddiymdroi am ffordd o gynhyrchu penisilin ar raddfa eang. Mae'n anodd credu, ond methodd ag ennyn



unrhyw ddiddordeb gan y cwmnïau cyffuriau ym Mhrydain a bu'n rhaid mynd dros fôr yr Iwerydd am gymorth. Aethant i Illinois lle'r oedd labordy a godwyd yno yn ystod y dirwasgiad mawr er mwyn defnyddio gwastraff o'r diwydiant amaethyddol. Roedd y cwmni Americanaidd eisoes yn gyfarwydd â thyfu gwahanol fathau o lwydni ar wastraff yd drwy ddefnyddio dulliau eplesu'r diwydiant bragu.

Dychwelodd Florey i'w labordy yn Rhydychen er mwyn paratoi digon o benisilin i gwblhau treialon clinigol. Llwyddodd i wneud hynny ac aeth i Ogledd Affrica ym 1943 i drin clwyfau milwyr. Roedd y canlyniadau'n wyrthiol.

Arhosodd Heatley yn Illinois am sawl mis yn gweithio ar y prosiect gydag Andrew Moyer o'r cwmni Americanaidd. Roeddent yn edrych ar lwydni o bob rhan o'r byd ond y gorau oedd hwnnw wrth eu traed, sef y llwydni a dyfai ar y melon cyffredin.

Er i Heatley a Florey rannu eu holl wybodaeth am benisilin gyda'r Americanwyr heb ddal dim yn ôl, daeth yn amlwg bod yr Americanwyr wedi

sylweddoli'n fuan iawn bod gwerth masnachol iddo. Credai Heatley a Florey y byddai ceisio am batent ar benisilin yn rhywbeth hollol anfoesol. Ar ôl dod adref, roedd amryw'n gweld bai ar Florey am fod yn llawer rhy hael ond, yn ei amddiffyniad, dywedodd nad oedd ganddo ddewis oherwydd yr angen am gyflenwi digon o benisilin mor gyflym â phosibl.

Ni chafodd Heatley, yn wahanol i Fleming, Florey a Chain, y wobr Nobel, ond cafodd radd Doethur mewn Meddygaeth gan brifysgol Rhydychen. Dim ond unwaith o'r blaen y cafodd y radd hon ei rhoi i berson nad oedd yn feddyg. Etholwyd ef yn Gymrawd Ymchwil Nuffield a gweithiodd ym maes gwrthfotigau nes iddo ymddeol.

Ar ôl ymddeol, daliodd i ddyfeisio ac ymchwilio i bethau, hyd yn oed yn ystod ei flynyddoedd olaf pan ballodd ei gof a'i iechyd. Roedd yn ŵr annwyl iawn ac yn uchel ei barch yn y gymdeithas yn Old Marston lle roedd yn byw ers 1948.

Mae ei wraig Mercy a thri o'u pedwar plentyn yn dal yn fyw. Bu ef farw ar 6 Ionawr 2004 yn 93 oed.

Tlws Coffa Robina Elis-Gruffydd

Sefydlwyd y Tlws er mwyn hyrwyddo a gwobrwyo cyfraniadau i'r meusydd hynny yr oedd Robina yn ymddiddori ynddynt ac poeni amdanynt.

Enillydd y tlws yw Dilys Parry, Hwlffordd. Llongyfarchiadau i Dilys, aelod gweithgar o Gymdeithas Edward Llwyd, sy'n enillydd haeddiannol yn dilyn ei gwaith diflino dros y Gymraeg yn Sir Benfro a thu hwnt.

(Diolch i Eluned Mai, aelod o'r Pwyllgor Gwaith, am yr uchod).



Dilys Parry, gyda'r Tlws o dderw a haearn y Preselau



Llên y Llaysiau

Y prosiect sy'n cloddio am yr aur o dan y rhedyn

Mae'r gyfres hon yn olrhain cysylltiadau llenyddol a hanesyddol gwahanol blanhigion. Crynhoi'r wybodaeth a gasglwyd hyd yma am y ddraenen wen y mae'r erthygl hon.

Y Ddraenen Wen

Prif Awdur: Maldwyn Thomas

Llwyn neu goeden fechan yw'r ddraenen wen sy'n tyfu'n wyllt drwy'r wlad ond sy'n fwyaf cyfarwydd, er pan grewyd caeau o dir agored, wedi'i phlannu mewn gwrychoedd. Ei blodau ym mis Mai yw'r symbol mwyaf trawiadol o ddiwedd gwanwyn a dechrau haf. Coeden gollddail yw hi tua deg troedfedd ar hugain o uchder ar dir da, yn amlwg iawn yn ei blodau ym mis Mai ac eto yn ei ffrwythau ym mis Hydref pan fydd ar dân gan aeron coch. Yn aml, ar dir agored nid yw ond llwyn oherwydd pori gan anifeiliaid, pridd gwael a gwyntoedd cryf. Yn y cyflwr hwnnw, mae'n tyfu'n glos a thrwchus â'r pigau drain hir yn ei gwneud yn wrych mor effeithiol.

Enwau

Yr enw safonol am y rhywogaeth yw draenen wen (ben.), *drain gwynion* (*Crataegus monogyna*). Am y ffrwythau, ceir *criafol* (*crawel*) y *moch*, *grawn yr ysbydden* ac *ogfaen* (*ogwan y moch* ar lafar yn Sir Benfro). Am y blodau, ceir *blodau mis Mai*. Am y goeden, ceir *drain ysbyddaid*, *ysbyddaden*, *ysbyddiad*, *pren bara a chaws*, *draenen blannu* ac *ogfaenwydd*. Ceir *ysbydat* hefyd ond orgraff Cymraeg Canol am ysbyddad yw hwn a dim mwy.

Yn fwy technegol, fe'i gelwir yn *ddraenen wen un golofn* i'w gwahaniaethu oddi wrth y *ddraenen wen dwy golofn*, (*Crataegus laevigata*) sydd hefyd yn frodorol i'r ynysoedd hyn. Cwltifar ohoni yw'r *ddraenen blannu*, sef y math o ddrain a blennir i wneud gwrych, 'coedgae' neu 'sietin' ('quick-set' yn y Saesneg). Ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhyngddynt ar wahân i fanylion y blodau. Mae *C. laevigata*, gan amlaf, yn tyfu mewn coetir ac mae dwy garreg y tu mewn i'w haeron. Mae'r ddau fath yn croesi'n aml.



"Pan flodeua'r ddraenen wen, y mae'r tymor rhew ar ben".



Tarddiad yr enwau

Yn gytras ag *ysbyddad*, *ceir spethas*, *spethes* ‘mieri’ mewn Cernyweg Canol a *spezod* ‘eirín Mair’ yn y Llydaweg. Cytras arall yw *scë* ‘draenen wen’ mewn Hen Wyddeleg; mae *p* yr ieithoedd Brythonaidd yn cyfateb i *c* yn yr iaith honno.

Weithiau ceir bod *ogfaen* â’r ystyr *egroes*, sef ffrwythau’r rhosyn gwyllt. Mae’n gytras â’r amrywiadau Llydaweg, *hog*, *hug* a *hogan*, sy’n enwau ar ffrwyth y ddraenen wen a hefyd, yn y ffurf luosog *hogin* yn



“Ogfaenllwyn a gaf unlliw”

golygu ‘tonsiliau’. Yn ôl dihareb Lydaweg: ‘Blwyddyn ogfaen, blwyddyn ýd / Blwyddyn eirin tagu, ni fydd’. Diddorol sylwi y ceir hefyd hogan ‘haw’ yn Saesneg tafodieithol Cernyw.

Gelwid hi yn ddraenen wen er mwyn gwrthgyferbynnu rhyngddi hi a’r ddraenen ddu *Prunus spinosa* gan fod rhisgl pren ifanc y naill yn llwyd golau a’r llall yn frown tywyll. Nid oes cofnod o ddefnyddio *drain gwynion* cyn 1722 na *drain duon* cyn 1604.

Mae’n debyg y gelwir y ffrwythau yn *criafol* y *moch* am eu bod yn debyg, yn arwynebol, i aeron y *criafol* ac yn rhoi’r un olwg danbaid yn yr hydref.

Tybir y daw’r enw *pren bara a chwars* o arferiad plant o fwyta’r dail a’r aeron yn yr hydref. Hwyrach, yn ôl dychymyg plentyn bod cnawd yr aeron yn debyg i gaws maidd.

Enwau lleoedd

Draenen Wen Amhosibl efallai yw gwahaniaethu rhwng cyfeiriadau at ddrain

gwynion, drain duon a mieri mewn enwau lleoedd. Mae *Cefn Dreiniog* yn Llanfrothen, *Rhyd y Drain* yn Llanuwchllyn, *Erddreiniog* ym Môn, *Draenogan* Talsarnau (*drain ogfaen* tybed?) yn bosibiliadau i’w hystyried. Gallai enwau o’r fath gyfeirio yn ogystal at unrhyw wrthrych, planhigyn neu greadur pigog gan gynnwys mamaliaid a physgod. Ceir hefyd *Tyddyn Drain* (Llanaelhaearn) *Beudy Adwy’r Drain* (Rhyd Ddu) a *Lkwyn Drain* (Licswm).

Ysbyddad Yng nghronfa Melville Richards, cofnodir y gair (neu ffurf arno) mewn tua 20 o enghreifftiau o enwau lleol drwy Gymru benbaladr. Ceir *Bryn Ysbyddaden* ym Môn, yng Ngheredigion ac yn Sir Gaerfyrddin, *Cae’r Ysbyddaden* (Llanfaelog), *Clun Ysbyddyd* (Llwynyrebol), *Cwm Nant Ysbyddaden* (Penderyn), *Erw’r Sbyddyd* (Bre), *Erw’r Ysbyddadog* (Trefor, Dinbych), *Ffos Ysbydded* (Llangynnwr), *Gwaun Ysbydden* (Llanfair ar y Bryn), *Maesysbyddaden* (Corris), *Maesysbyddadog* (Llandysilio, Trefaldwyn), *Nant Ysbyddaden* (Nedd), *Pant Ysbyddyd* a *P.Sbydded* (Pennal) a *Perth Ysbyddaden* (Persaeddffed, Môn). Mae’r cysylltiadau â chae, erw, gwaun, pant a pherth oll yn gyson â chynefin naturiol y goeden.

Ceir cyfeiriadau cynnar at y goeden mewn enwau lleoedd, megis *Trespethed* (Llandyrnog, 1550), *Ysbydwr* (Llandyfrydog, 1349), *Ysbyddadog* (Trefor, 1498), *Y Spaddadog Ddrylliog* (Cefn, Dinb. 1638). Dylem ochel rhag camgymryd rhai o’r enwau hyn am rai sy’n cyfeirio at eiriau tebyg. Er enghraifft, oni allai *Erw’r Sbyddyd* olygu ‘erw dihybydd’ yn gymaint ag ‘erw’r ysbyddad’. Ystyr *ysbyddawd* yw *hospitium* a *hospitalitas* gan John Davies o Fallwyd ym 1632 a cheir *ysbydhod* â’r ystyr a *dairy* gan Edward Llwyd (AB 221a). Er mwyn dangos sut yr ystumiwyd y gair ambell dro, ceir dwy ffurf ar yr enw *Ysbyddadog* yn Rhiwedog, Llanfor, Dinbych sef *Tyddyn Spethadog* (1592) ac *Ysbrydhavog* (c. 1700).

Defnydd

Impio Yn *Llawlyfr y Llafurwr* (1711) gan Moses Williams, ceir y cyfeiriad hwn:



*Yr Afallen sur a ddrwg Afalau pêr, a'r
Yspaddaden a ddrwg Ellyg.*

Gwrychoedd Dyma weiren bigog yr oes a fu ac fe gafodd y ddraenen wen ei phlannu i'r perwyl hwnnw ers cau'r tiroedd comin yn y 18fed a'r 19eg ganrif. Mae'n gymwys iawn at y pwrpas gan ei bod yn hawdd ei chodi o had, yn trawsblannu'n llwyddiannus yn ifanc, yn tyfu yn drwchus a phigog ac yn goddef cael ei thocio'n glos. Ar ôl ei hesgeuluso am flynyddoedd a'i gadael i dyfu'n agored ac yn fylchog, mae'n goddef cael ei phlygu eto i greu gwrych newydd isel a thrwchus.

Yn y 19eg, datblygwyd llawer iawn o feithrinfeydd neu 'erddi coed bach' trwy Gymru i gyflenwi'r alwad am ddefnydd fforestydd a gwrychoedd. Byddai'r Cymdeithasau Amaethyddol ym mhob sir yng Nghymru bron, er mwyn gwella safonau, yn cynnig gwobrwyon am fagu coed i'w gwerthu. Dyma un enghraifft o Geredigion ym 1790:

Premium V White Thorn for Sale (2): 'To the person who shall have for sale, at the time of giving in his claim, the greatest quantity of white thorn plants, on an average eighteen inches high, fenced in, and kept clean of weeds, not fewer than ten thousand, two guineas.'

Defnyddiau eraill Gan Huw Jones, *Cydymaith Byd Amaeth*, cawn dair esiampl o wneud defnydd o'r ddraenen; yn gyntaf i ferdio (cau bylchau mewn cloddiau a gwrychoedd), yn ail, i wneud og ddrain i lyfnu tir glas ac, yn drydydd, i wneud gwely'r teisi ag eithin a gwellt. Yn gyffredin iawn gynt, gwnaed ffyn o ganghennau syth ceinciog y ddraenen wen gan amlaf â bagl naturiol. Mae pren y goeden yn galed a chlos ac yn cael ei ddefnyddio yn lle pren bocs.

Cyfeiriadau Meddyginiaethol

Dyma enghraifft o ddefnyddio'r hyn a achosodd glwyf i wella'r clwyf hwnnw:

Rhag draen a el mewn troed. Kym[er] risc yr ysbaddod [sic.] a'i briwio mewn mortar

Cyfieithiad: [i drin claf] rhag draenen a êl

mewn troed, cymer risgl yr ysbyddad a'i friwio mewn mortar

Credid bod ffrwythau'r ddraenen wen yn achosi camliwio'r iwrin mewn gwartheg pan fyddai'r cnwd yn fawr. Ar lawr y parlwr godro, trôl dŵr clir, diliw yn oren ac yna'n frown gan staenio carnau'r anifeiliaid. Mynnid hefyd y byddai gostyngiad dros dro yn y llaeth a gynhyrchid.

Ystyrir y ddraenen wen o werth meddyginiaethol pendant ac mae elfennau ohoni'n cael eu cynnwys mewn nifer o feddyginiaethau gwyddonol. Y blodau sydd fwyaf rhinweddol gan y gallant dawelu'r system nerfol ganolog a rheoli'r system gardiofasgiwlaidd.

Cyfeiriadau Llenyddol

Ceir nifer o gyfeiriadau lled gynnar at ysbyddad ac at ogfaen gan gynnwys cyfeiriadau at ddefnyddio'r brigau i wneud coron Crist, presenoldeb y llwyn fel arwydd o gyflwr tir, at ymddangosiad y planhigyn yn ei dymor, at y llwyn fel lle i gysgodi neu i guddio, fel delwedd ddifrifol ac yn fwy diweddar fel blodyn hardd neu blanhigyn gwrych:

Jessu hagen a rodet y pilatus ... dodet coron o yspyd am y benn 14eg ganrif.

Cyfieithiad: Ond Iesu a roddwyd i Peilat ... a dodwyd coron o ysbyddad am ei ben.

Ar dayar aoed emelltigedig gynt yn dwyn yspadat (spinis addicta) adrysswch 1346

Cyfieithiad: Roedd y ddaear yn felttigidig gynt yn dwyn ysbyddad a drysni.

Gorwyn blaen ysbydat c. 1400.

Cyfieithiad: Claerwyn yw blaen ysbyddad.

Gorwyn blaen ysbydat Cyfieithiad: claerwyn yw blaen ysbyddad.

Bedrawt yssyd yn ynys Prydein. Y dan yspadadenheb dim ar y warthaf. Ac ny ddaw glaw vyth idaw. c. 1400

Cyfieithiad: Mae beddrod [i'w gael] yn Ynys Prydain o dan goeden ysbyddaden



heb ddim uwch ei ben ac [eto] ni fydd
glaw byth yn ei gyrraedd.

*Llwynog wyf mewn llwyn o goed
Os llechu n wwyn yn rwyn rizw
Ogfaenllwyn a gaf unlliw*

Ieuan Du'r Bilwg 15 ganrif

Cyfieithiad: Llwynog wyf mewn llwyn o
goed/Os llecha'n glyd ar drwyn rhiw/fe'i caf
yn unlliw ag ogfaenllwyn.

*Eu duwiau hwynt ... ydyny fel speyddaden
mewn perllan.* 1588

Cyfieithiad: Mae eu duwiau hwy fel
ysbyddaden mewn perllan. [1588 = o'r
Beibl?]

Ac yn fwy diweddar, ceir:
*Mae nghariad i'n Fenws
Mae nghariad i'n fain.
Mae nghariad i'n dlwsach
Na blodau y drain.*

Hen bennill

Blodau'r Drain

*Yn y coed ar riniog ha' – y llwyn drain
Yn llawn drwch flodeua;
Rhoi lliw y nef gerllaw wna,
A dynwared haen eira.*

Ioan Brothen *Llinell neu Ddwy*

*Y nhad a fu'n plannu'r perthi pella o'r tŷ –
Perthi'r Cae Top a'r Cae Brwyn
A minnau'n grwt bach wrth ei sodlau
Yn estyn iddo'r planhigion at ei law;
Tair draenen wen a ffawyddden,
Tair draenen wen a ffawyddden yn eu tro;
A'i draed e'n mesur rhyngddyn nhw ar hyd
pen y clawdd
A'u gwasgu nhw'n soleg yn y chwal bridd –
a chalch.*

J Kitchener Davies, *Fferm a Thyddyn*, rhif 30

Chwedloniaeth

Mae llawer hen ddyweddiad yn gysylltiedig
â blodeuo'r ddraenen wen, gan fod y
blodeuo hynny'n symbol o ddiwedd y
tywydd caled a dechrau'r tymor tyfu, amser
arwyddocaol iawn i bawb a oedd yn
dibynnu ar y tir.

*Pan flodeua'r ddraenen wen
Y mae tymor rhew ar ben.*

*Pan y gwelych ddraenen wen
A gwallt ei phen yn gwynnu,*

*Mae hi'n gynnes dan ei gwraidd
Hau dy haidd os mynni.*

*Pan fo'r ddraenen ddu yn wych
Hau dy had os bydd yn sych.
Pan fo'r ddraenen wen yn wych
Hau dy had boed wlyb neu sych.*

Digwyddai'r hau tua'r 12fed o Fai,
dyddiad a oedd un diwrnod ar ddeg
ynghynt (hynny yw ar Galan Mai) cyn
mabwysiadu Calendr y Pab Gregori ym
1752. Roedd blodeuo'r ddraenen wen yn
ganolog i rialtuch yr ŵyl a byddai brigau'n
cael eu plethu'n garlantau mewn cysylltiad
â'r Fedwen Fai. Perthyna'r ŵyl i'r caeau a'r
coedlannau ac nid i barchusrwydd tai
annedd ac nid hwyrach mai dyma sail y
gred na ddylid byth ddod â'r planhigion i'r
tŷ. Rheswm arall, mae'n debyg, oedd fod
arnynt arogl melys sy'n tueddu i fod yn
llethol dan do. Yn wir, ein henw ni [MT]
arnynt fel plant oedd 'blodau marw mam'
ac mae'r traddodiad hwn yn gryf mewn
llawer ardal.

Mae dail y ddraenen wen, gyda rhai'r
dderwen, i'w gweld mewn cerfluniau o'r
Gŵr Gwyrdd mewn eglwysi a thafarndai a'r
dail yn glafoeirio o'i geg a'i glustiau. Dyma
enghraifft, mae'n debyg, o'r Eglwys
Gristnogol yn mabwysiadu symbol
paganaid. Y gwir yw fod yr elfen
triethylamin yn y blodau, sef un o'r
elfennau a gynhyrchir gyntaf pan fo cnawd
yn pydru; dyna arogl y pla du a'r madredd
(gangrene) yn ôl rhai awduron.

Mae dwy chwedl gysylltiedig wedi tyfu o
gwmpas y ddraenen wen. Y gyntaf yw mai
ohoni y gwnaed coron ddraen Crist, ac felly
fod iddi sawl rhinwedd (gweler uchod).
Mae'r ail am fath *Crataegus monogyna cv.*
'Biflora', sef draenen wen Ynys Wydrin
(*Glastonbury Thorn*), sef ei bod yn deilio ac
yn blodeuo yn y gaeaf ac yna eto ym mis
Mai. Ai dyna sydd o dan sylw yma?
*Ysbyddaid a dyfant bob amser o'r gayaf i'r
gwanwyn* 1561

Ar ôl croeshoelio Crist, daeth Joseff o
Arimathea i Brydain i ledaenu'r efengyl.
Roedd yn pregethu yn Ynys Wydrin heb
fawr o effaith ar ei gynulleidfa. Gweddiodd
ar Dduw am wyrth a chafodd ei ddymuniad



pan flodeuodd ei ffon ddraenen wen ar ôl ei tharo yn y ddaear. Blodeuai yn flynyddol ar ôl hynny a chymrwyd llawer toriad ohoni. Yn Iwerddon, credid bod draenen wen unig yn gartref i'r tylwyth teg ac na ddylid amharu arni. Yn Sir Faesyfed, credid, o leiaf hyd 1949 bod llosgi llwyn draenen wen mewn cae ar Ddydd Calan yn amddiffyn y gwenith rhag y clwy penddu.

Gerddi

Mae sawl amrywiad ar y ddraenen wen i'w weld mewn gerddi, ei ffurf yn gwahaniaethu o fod yn wylofus i fod yn bigfain. I'r math brodorol arall, sef *Crataegus laevigata*, fodd bynnag, y perthyn yr amrywiadau ag aeron melyn a'r rhai â blodau sengl a dwbl. Amrywia lliw'r blodau o wyn, trwy binc i goch.

Nodweddion ecolegol a hanesyddol

Mae drain gwynion yn gwreiddio'n ddwfn ac yn byw'n hen ar dir uchel, yn gwrthsefyll gwynt a thywydd gerwin ac yn rhoi cysgod i ddefaid, bwyd i lawer o bryfed a nythfa i biod a brain. Mae'r aeron yn fwyd gwerthfawr i'r bronfreithod at ddiwedd blwyddyn.

Yn ôl ymchwil gan y Dr John Good, mae ystod oed coed y ddraenen wen yn Nant Ffrancon yn awgrymu iddynt ddyddio o gyfnodau pryd y gwelwyd trai mewn amaethyddiaeth a phryd y cawsant gyfle, felly, i ymledu. Un o'r cyfnodau hynny oedd yn dilyn diddymu'r Deddfau ŷd ac un arall oedd dirwasgiad yr 1930au.

Yn ôl astudiaethau diweddar, yn dilyn y diddordeb cynyddol mewn newid hinsawdd, rhwng 1900 ac 1950 bu'r ddraenen wen yn blaguro ar ôl 17 Ebrill, yn ddieithriad. Ymddengys erbyn hyn (2000) ei bod yn dangos ei dail cyntaf ar gyfartaledd yn nhrydedd wythnos mis Mawrth.

Diolch

I Ganolfan Ymchwil Enwau Lleoedd, Prifysgol Cymru Bangor am ddarparu gwybodaeth o gronfa enwau lleoedd Melville Richards. Ychwanegwyd sylwadau at yr ysgrif gan nifer o awduron eraill.

Ffynonellau a darllen pellach

Cyhoeddiadau

- Aubrey, G (1995): *Blodau'r Maes a'r Ardd*
Bevan, G et al (1950–2002): Geiriadur Prifysgol Cymru
Cymdeithas Edward Llwyd (2003): *Planhigion Blodeuol, Conwydd a Rhedyn*
Cooper, M R a Johnston, A W (1984) *Poisonous Plants in Britain and their effects on Animals and Man*
Davies, D a Jones A (1995): *Enwau Cymraeg ar Blanhigion*
Girre, L (2001): *Les Plantes et les Medicaments*
Grigson, G (1987): *The Englishman's Flora*
Jones, H (2000): *Cydymaith Byd Amaeth*
Linnard, W (2002): *Welsh Woods & Forests*
Mabey, R (1996): *Flora Britannica*
Vickery, R (1995): *A Dictionary of Plant Lore*

Gwefannau

www.woodland-trust.org.uk/phenology

Hoffech chi wybod mwy am brosiect Llên y Llaysiau?

Hoffech chi wybod mwy am ddefnydd y rhedyn a phlanhigion eraill?

Hoffech chi gyfrannu o'ch gwybodaeth eich hun i'r gronfa o ddata?

Cysylltwch felly â safle we'r Gymdeithas www.cymdeithasedwardllwyd.org.uk cliciwch ar y botwm

Llên y Llaysiau

... ac fe welwch safle newydd arbrofol y prosiect gyda chyfle i fewnbynnu eich sylwadau ac i gyrchu'r wybodaeth a gasglwyd hyd yma.


Beth amdani, mae'n hawdd!

neu, wrth gwrs, os bydd yn well gennych, rhowch nodyn ar bapur a'i anfon at Haf Meredydd, 14 Stryd Wesla, Porthmadog.



Dod i nabod ein gilydd – Twm Elias

Duncan Brown



Twm Elias

Magwyd Twm Elias ar fferm fynyddig yn ardal Clynnog Fawr. Roedd yn fachgen a arferai ddilyn ei ddiddordebau ei hun, byd natur a chwilota'r cynefin o'i gwmpas yn bennaf. O ganlyniad, doedd o ddim yn cymryd yn rhwydd iawn at awdurdod ac roedd yn dipyn o rebal yn yr ysgol. Yn ddiweddarach, bu'n creadur gwleidyddol iawn a bu'n weithgar gyda Chymdeithas yr Iaith a'r mudiad gwrth-arwisgo. Mae'n dipyn o rebal o hyd yn nhyb rhai!

Roedd Twm bob amser yn gasglwr o fri – stampiau a bocsus matsys i gerrig a wyau adar. Erbyn heddiw, llyfrau byd natur a hanes lleol sy'n diwallu anian y bиден ynddo.

Doedd o ddim am fynd i ffermio. Ar ôl ymadael â'r ysgol, aeth i weithio gydag ADAS, yn labordy Bryn Adda ym Mangor, yn cynnal profion ar bridd. Yna, ym 1968 aeth i Aberystwyth i weithio yn y Fridfa Blanhigion.

Ar ddiwedd 1969, aeth i astudio llysieueg amaethyddol am dair blynedd gan wneud ymchwil ar borfeydd. Ymunodd â'r Gymdeithas Wyddonol a datblygodd ddiddordeb ym mhob agwedd ar wyddoniaeth yn y Gymraeg. Dechreuodd gasglu llyfrau yn ymwneud â'r eirfa wyddonol Gymraeg. Credai bod yn rhaid i'r iaith ddatblygu i bob cyfeiriad ond yn arbennig ym maes gwyddoniaeth a'r amgylchedd.

Yn ddiweddarach tan 1979, bu mewn swydd ymchwil yn Aberystwyth am bedair blynedd yn ymwneud â gaeaf-galedwch mewn gweiriau porfa. Roedd yn arferiad yr adeg hynny i aredig ffriddoedd a thir grug i sefydlu porfa – syndod fel mae'r rhod wedi troi erbyn heddiw.

Er na ddaeth swydd arall yn syth, ni fu Twm yn segur yn hir. Treuliodd gyfnod yng ngharchar Abertawe 'dros yr iaith' a thra roedd yno, ymddangosodd hysbyseb swydd darlithydd ym Mhlas Tan y Bwlch. Ar ôl cael ei draed yn rhydd, ddau ddiwrnod cyn y diwrnod cau, cafodd afael ar yr hysbyseb mewn garej leol. Cynigiodd am y swydd ac fe'i cafodd!

Roedd y gwaith o arwain cyrsiau yn y Plas yn fodd i newid cywair ac yn gyfle i Twm ddilyn ei ddiddordebau go iawn. Daeth yn enwog am ei hwyl ac am ei ddawn i ymestyn weithiau ar ffeithiau moel ei faes. Er enghraifft, clywais ef yn mynnu unwaith mai Cymraeg oedd yr hen derm Eingl-Normanaid coppice yn wreiddiol – hynny yw, ei fod wedi dod o'r ymadrodd 'coed pys'. Pan heriais ef yn glyfar, dywedodd iddo glywed hen fachgen o Llyn unwaith yn defnyddio'r ymadrodd am yr union le y byddai rhywun yn mynd i fondocio cyll i gasglu ffyn i'r ardd lysiau. Ai ystum ar y gwirionedd oedd hwn ynteu cyfoethociad ohono? Pa un bynnag, cefais fy llorio!



Un bore ar raglen Hywel Gwynfryn, clywodd fod rhyw Dafydd Dafis wedi sefydlu cymdeithas i naturiaethwyr Cymraeg. Ymunodd a daeth yn ysgrifennydd cyntaf Cymdeithas Edward Llwyd. Bu wrthi yn y swydd honno am 10 mlynedd ac yn drefnydd teithiau yn y Gogledd am 15 mlynedd.

Trefnodd amrediad eang o gyrsiau dros y blynyddoedd ym Mhlas Tan y Bwlch – rhai ar fyd natur ac adar gyda'r diweddar Ted Breeze Jones a rhai ar lèn gwerin (a esgorodd ar gylchgrawn *Llafar Gwlad* a Chymdeithas *Llafar Gwlad*). Cyfrannodd Twm at bob rhifyn o'r cylchgrawn gan gynnwys 78 erthygl am arwyddion tywydd. Trefnodd gyrsiau hefyd ar hanes amaeth a chefn gwlad. Bu'r rhain yn gyfle iddo fynegi ei ddi-ddordeb yn y porthmyn Cymreig, y brid hwnnw a oedd yn llechu yma a thraw yn ei bedigri ei hun. Esgorodd y rhain ar gylchgrawn arall, *Fferm a Thyddyn* a roes lwyfan i faes y credai oedd wedi'i esgeuluso'n enbyd gan haneswyr. Safoni enwau Cymraeg ar blanhigion ac anifeiliaid aeth â'i fryd hefyd ac, yn fwy diweddar,

trodd ei frwdfrydedd heintus i gyfeiriad prosiect sy'n ceisio olrhain y cysylltiadau rhwng pobl Cymru a phlanhigion, Llên y Llysiau.

Affraid sôn am ei gyfraniadau ar y radio a'r teledu, yn bennaf (ond nid yn unig o bell ffordd) fel aelod o banel Byd Natur am flynyddoedd ac yn rheolaidd ar Galwad Cynnar ar foreau Sadwrn.

Mae Twm yn ymddiddori hefyd mewn archaeoleg a seryddiaeth, timau rygbi a phêl droed Cymru (yn enwedig pan fyddan nhw'n ennill) a thîm dan 11 oed Nantlle Vale (gyda'i fab Owain). Ymhlith hynodion eraill, mae'n casau pendantrwydd o bob math ac mae'n berchen balch ar gopi o Archaeologia Britannica Edward Llwyd. Mae'n berchen hefyd ar sawl pâr o sanau cochion gwlanog a sandalau i gydfynd â hwy. Dyna ei 'droed-marc' meddai rhywun unwaith (Twm ei hun mae'n siŵr!)



CASTLE CEMENT

**BUDDSODDI YN YR
AMGYLCHEDD**

TEL. 01244 550330
www.castleceмент.co.uk

HEIDELBERGCEMENT Group






Castle Cement Limited . Padeswood . Yr Wyddgrug . Sir Fflint .



Lhun Pwy?

Bu llawer o naturiaethwyr enwog ymhlith gwŷr y goler gron?

Pwy oedd y Cymro hwn?
Anfonwch eich sylwadau neu eich atgofion. Bydd gwobr o lyfr am y llythyr gorau.



Yn y rhifyn diwethaf, y gŵr â'r het oedd Evan Roberts, Capel Curig, y chwarelwr a droes yn fotanegydd.

Ond - rhaid i'r Golygydd ymddiheuro – anghofiais ei fod eisoes wedi bod yn destun y gystadleuaeth hon! (Gweler Y Naturiaethwr, Rhif 8, Gorffennaf 2001).



ARVONIA

- Gwyliau coets ym Mhrydain ac ar y Cyfandir
- Rhaglen o deithiau undydd
- Bysiau moethus i'w llogi'n breifat
- 7 o fysiau mini i gario 14 - ar gyfer y maes awyr neu i'w llogi'n breifat
- Adran Trefnu Teithiau i grwpiau - holl derfniadau'r daith: llogi gwesty a fferi: manylion y daith: digwyddiadau &c. theatr &c.



Y Sgwar, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffon: 01286 675175 Ffacs: 01286 676406 Ebost: mail@arvonias.co.uk Safle gwe: www.arvonias.co.uk



Wyddoch chi.....?

- bod mwy na 2,000 o ffermydd yng Nghymru wedi'u derbyn bellach i'r cynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal.
- bod Clychau'r Gog, un o flodau enwocaf a harddaf Prydain o dan fygythiad gan ymwelydd estron? Mae Clychau'r Gog Sbaenaidd yn boblogaidd iawn yn ein gerddi ac yn prysur ymsefydlu yn y gwyllt, gan groes-beillio â'r blodyn cynhenid.
- bod y Cyngor Cefn Gwlad a Phrifysgol Cymru, Bangor am noddi pump o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ac yn dilyn cwrs MA/Diploma mewn Rheolaeth Cefn Gwlad. Bydd pob myfyriwr yn derbyn £1,000 o nawdd.
- bod cynllun llwyddiannus wedi dod â Llyffantod y Twyni (*Natterjack Toads*) yn ôl i Dalacre ger Prestatyn a bod cynllun tebyg ar droed i gyflwyno Madfall y Tywod (*Sand Lizard*) i ardal gyfagos.
- bod un o adar prinaf Prydain, Gwalch y Pysgod (Osprey) wedi nythu yng Ngogledd Cymru eleni. Collwyd y cywion mewn storm o wynt, ond gobeithir am fwy o lwyddiant y flwyddyn nesaf.

Beth yw CLÔN?

Mewn rhifyn diweddar o 'Biologist' (cylchgrawn yr *Institute of Biology*), mae erthygl hynod o ddiddorol o dan y teitl '*Dolly, the so-called clone*'.

Defnyddiwyd y gair clôn gyntaf gan Herbert Webber yn yr Unol Daleithiau ym 1903 i ddisgrifio planhigion sy'n atgynhyrchu'n llystyfol (*vegetative reproduction*).

Ym 1929, defnyddiodd H S Jennings y gair clôn am yr holl unigolion sy'n ddisgynyddion trwy atgynhyrchiad un-rhiant o un unigolyn.

Ym 1948, defnyddiodd Kathleen Sanford yr un gair am dyfiant o feithriniad pur (*pure culture*) o un gell.

Mewn erthygl ddiweddar yn *Nature* diffiniwyd clonio fel 'gwneud digon o gopïau o ddarn arbennig o DNA i'w alluogi i greu dilyniant' (*to allow it to be sequenced*).

Beth am Dolly?

Yn yr achos hwn, cymerwyd cnewyllyn o gell un ddafad a'i osod mewn wygell dafad arall i gymryd lle'r cnewyllyn hwnnw. Ai clonio yw hyn?

Sylwer bod hyn ac atgynhyrchiad llystyfol (*vegetative reproduction*) mewn planhigion yn rhoi bod i unigolion sydd â genotyp y cnewyllyn yn union yr un fath, - fel sy'n digwydd hefyd mewn efeilliaid unwedd (*identical twins*), OND y mae gwahaniaeth. Mae gan yr anifeiliaid hefyd ennydau o'r MITOCONDRIA yn yr wÿ, ac mae hyn, yn ogystal ag effaith datblygiad pellach yr embryo a'r ffoetws yn golygu bod gan bob unigolyn ei hunaniaeth arbennig.

Peth peryglus yw defnyddio'r gair clôn am nifer o wahanol brosesau!

G.W.



LLEOEDD A'R BARDD

Yn y rhifyn diwethaf o'r Naturiaethwr, gosodwyd y dasg o enwi'r lle a'r bardd yn y dyfyniadau canlynol. Dyma'r atebion a diolch i Lun Roberts am osod y gystadleuaeth. Daeth tri i'r ornest, gyda Gwyn Jones, Ceredigion a Joan Thurman o Sir Benfro yn gydradd gyntaf o drwch y blewyn a Mair Lloyd Williams o Sir y Fflint yn drydydd. Mae gwobr i'r tri.

1. Mi wyddwn fod arall swyn ynot ti
Na cherrig a pharodi ac enw i mi –
Mae ienctid fy Nghenedl yn dy hirgof
di.
2. Olion fy hil a welaf – ac aelwyd
A foddwyd ganfyddaf
Ail agor craith i'r eithaf
A wnaeth Cwm yr hirlaf haf.
3. Oblegid mi gaf yno
Yng nghri'r ystormus wynt
Adlais o'r hen wrthryfel
A wybu fenaïd gynt.
A chanaf â'r hen angerdd
Wrth syllu tua'r ddôr
Ar greigiau
A thonnau gwyllt y môr.
4. Welsoch chi mo afon Teifi'n
Llifo'n araf drwy y cwm?
Welsoch chi mo flodau'r eithin
Ar y llethrau'n garged trwm?
5. Mae yno ugain mil o saint
Ym mraint y môr a'i genlli,
Ac nid oes dim a gyffry hedd
Y bedd yn
6. Ond mae rhyw ddewin a dieflig hud
Yn gwneuthur gweld ei wyneb i mi'n nef,
Er nad oes dim gogoniant yn ei bryd,
Na godidowgrwydd ar ei lannau ef –
Dim byd ond mawnog â'i boncyffion
brau,
Dau glogwyn a dwy chwarel wedi cau.
7. O dan draed, roedd blodau'n drwch,
Cerddem ymysg eu harddwch;
Acw o lom graig, clywem gri
Yr wylan, ferch môr heli;
Hoyw donnai ei hadanedd,
Llyfn, clir fel arfod llafn cledd;
8. O mwyn yw cyrraedd canol
Y tawel gwmwd hwn
O'm dyffryn diwydiannol
A dull y byd a wn;
A rhodio'i heddwch wrthyf f'hun
Neu gydag enaid hoff, cytun.
9. Er bod yr haf, pan ddêl ei oed
Yn deffro'r coed i ddeilio,
Ni ddeffry dyn, a gwaith ei law
Sy'n ddistaw ymddadfeilio.
10. Does yno ddim ond corsydd brwyn
Medd rhai, ac ambell gorlan gerrig
Dim byd ond mawn a brynïau'r wŷn
A gwynt mewn gwern yn deud ei gŵyn.
11. Ynysig a'i thir isel – yn ir oll
Dan yr haul ar awel,
O'i mewn y mae im win a mêl
Y bywyd diwyd tawel.
12. Pert iawn yw 'i wisgoedd yr amser hyn, -
Yr eithin yn felyn a'r drisi'n wyn,
A'r blode trad brain yn batshe mowrion
Ar lechweddodd gwyredd, fel cwmwle
gleishon;
Lle mae'r gwrug ar y graig yn bwngel,
Fe dingech fod rhywun yn tanu'r
llethre.
13. Bywiol Eden y blodau, - bro y mêl,
Bro mill a phwysiau;
Bro llawn cnwd, bro llwyni cnau,
A bro annwyl y brynïau.



14. I wlad y gelltydd a'r blodau gwylltion,
 Lle tyf y llys, y mefys a'r mafon
 Aroglau gyddfau gwyddfifd yn y gwrych
 A thonnog wrid y rhos yng ngloddiau'r
 ardd.

15. Yng nghesail y moelydd unig,
 Cwm tecaf y cymoedd yw, -
 Cynefin y carlwm a'r cadno,
 A hendref yr hebog a'i ryw.

Atebion

- | | | | |
|------------------|--------------------|------------------|-------------------|
| 1. Y Cnicht | Ifor Owen | 9. Ystrad Fflur | T Gwynn Jones |
| 2. Llyn Celyn | Elwyn Edwards | 10. Cwm Eithin | Myrddin ap Dafydd |
| 3. Aberdaron | Cynan | 11. Môn | William Morris |
| 4. Cwm Alltcafn | T Llew Jones | 12. Pwllderi | Dewi Emrys |
| 5. Ynys Enlli | T Gwynn Jones | 13. Meirionnydd | Ioan Machreth |
| 6. Llyn y Gadair | T H Parry Williams | 14. Penrhyn Gŵyr | Gwyndaf |
| 7. Penmon | T Gwynn Jones | 15. Cwm Pennant | Eifion Wyn |
| 8. Eifionydd | R Williams Parry | | |



HONDA
The Power of Dreams

Gwerthwr Honda hynaf yn y Deyrnas Unedig




Honda Newydd • Honda Ail-Law • Prestige

- Dros 100 o geir dewisol, gyda milltiroedd isel, i'w gweld
- Pob un â manylion gofal cyson, gyda gwarant am 12 mis
- Pob car Honda wedi cael ei drin gan dechnegwyr arbenigol

- Gwasanaeth casglu a danfon ar gael (cysylltwch am fanylion)
- Cynllun ariannu ar gael ar gyfer unigolion a busnesau
- Gwelwch ein safle gwe am restr lawn o geir newydd ac ail-law



2MILLS

0151 347 4444
www.two-mills.co.uk
TWO MILLS HONDA, PARKGATE ROAD, LEDSHAM, SOUTH WIRRAL CH66 9PD

AR
AGOR 7
NIWRNOD



Y Tywydd yng Nghymru, Gaeaf '03 – '04

Tachwedd: Yn sychach nag arfer gyda mwy o haul ledled y wlad. Ar y cyfan, roedd mwy o law yn ne Cymru nag yn y gogledd. Roedd y tymheredd uchaf o 19.2°C yn Abergwyngregyn, ger Bangor ar y 7fed o'r mis.

Rhagfyr: Roedd y tywydd yn debyg i'r arfer y mis hwn o ran tymheredd a glaw. Cafwyd ychydig mwy o haul nag arfer, gyda'r Fali ar Ynys Môn yn cofnodi 59 awr yn ystod y mis. Ni chafwyd eira o gwbl yn y Fali ond ym Moel y Crio yn Sir y Fflint, cofnodwyd eira ar 5 niwrnod.

Ionawr: Dyma fis cymharol fwyn ar y cyfan. Cafwyd mwy o law nag arfer a llai o heulwen nag arfer dros y rhan fwyaf o Gymru. Un o'r lleoedd gwlypaf yng Nghymru oedd Llanymawddwy ym Meirionnydd gyda 344 mm o law yn ystod y mis.

Chwefror: Dechreuodd y mis yn fwyn ac yn wlyb ond daeth rhew ac eira yn ddiweddarach. Cafwyd tymheredd isel o -7.3°C yn Felindre, ger Talgarth ar y 27ain a 9.2°C yn Llanpumsaint, Caerfyrddin ar y 29ain. Cafwyd llawer mwy o haul nag arfer yn ne Cymru ond yn debyg i arfer yn y gogledd.

Mawrth: Dyma fis arall gyda'r tymheredd yn uwch nag arfer dros Brydain i gyd. Yng Nghymru, cafwyd llawer llai o law nag arfer. Yng ngogledd Cymru, 60% yn unig o'r glawiad arferol dros y 30 mlynedd ddiwethaf a gafwyd. Yn Queensferry yn Sir y Fflint, 25mm yn unig o law a gafwyd yn ystod y mis.

Ebrill: Dros Brydain, roedd Ebrill yn fis gwlyb er bod ambell ardal yng ngogledd Cymru wedi osgoi llawer o'r glaw. Roedd y tymheredd ar y cyfan yn uwch nag arfer ond cafwyd amrywiaeth mawr e.e. 4.0°C ym Mhontsenni ar y 9fed o'r mis a chymaint â 23.4°C ar y 24ain yng nghanol Llundain.

Mae gwahaniaeth mawr yn y glawiad rhwng gwahanol rannau o Gymru. Dyma dair enghraifft.

	<i>Glawiad (mm) yn ystod y mis</i>					<i>Cyfanswm (5 mis)</i>
	<i>Tachwedd</i>	<i>Rhagfyr</i>	<i>Ionawr</i>	<i>Chwefror</i>	<i>Mawrth</i>	
<i>Queensferry</i>	49.0	71.8	84.1	38.5	25.0	268
<i>Caerdydd</i>	124.0	159.8	165.0	86.4	95.0	630
<i>Llanymawddwy</i>	246.0	287.0	344.0	265.0	176.0	1318

Dymunwn gydnabod yn ddiolchgar Mr Ken Walls, Moel y Crio, Sir y Fflint a'r grŵp *Climatological Observers Link* am y rhan fwyaf o'r wybodaeth uchod.



Llythyrau

Cefn Bere
Dolgellau
Chwefror 2004

Annwyl Goronwy

'Roedd llythyr Beti Hughes yn Y Naturiaethwr-Rhagfyr 2003 am y goeden cas gan fwnci yn deffro atgofion am fy magwraeth innau. Er mai pentre o chwarelwyr a thyddynnwyr oedd y Garreg, Llanfrothen, Sir Feirionnydd yn fy mhlentyndod i, roedd yno amryw o arwyddion o gysylltiadau morwrol. Enw llyn yn y pentre ar yr afon Gaseg, sy'n cysylltu efo'r Glaslyn a Phorthmadog, oedd Pwll Llong. Ar siliau ffenestri aml un o'r tai roedd sypiau o gwrel llwyd a chregyn tro (conch shell), rhai ohonynt efo'r pig wedi'i dorri i ffwrdd i wneud ceg cragen ginio a ddefnyddid cynt i alw'r dynion o'r caeau i'w pryd bwyd. Tyfai dwy goeden fawr cas gan fwnci wrth ymyl Capel Siloam yng ngheg y ceunant sy'n dod i lawr o'r Rhyd. Ys gwn i ble mae'r cwbl wedi mynd?

Golwg ddieithr a chyn-hanesyddol sydd i'r goeden. Hawdd credu bod olion perthnasau agos iddi wedi'u darganfod wedi'u ffosileiddio mewn creigiau a ffurfiwyd yn y cyfnod Jwrasig, 225 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Yn ifanc, mae'r canghennau pigog yn ei dilladu i'r llawr, ond yn hen, (gallant fyw am tua 2,000 o flynyddoedd), yn fwy fel ymbarel gyda boncyff noeth, perffaith syth, rhwng 60 a

100 troedfedd o uchder. Un arall o'r teulu Araucaria sy'n cyflenwi'r pren defnyddiol i'r farchnad goed yw'r Pin Parana. Maent wedi prnhau yn arw yn eu cynefin gwyllt ar lethrau folcanig Cordilerau'r Andes yn Chile ac yn cael eu gwarchod rhag coedwigwyr gan ymdrechion llwyth brodorol y Pehuenche sy'n dibynnu arnynt am gynhaliath. Mae eu henw'n golygu pobl y cas gan fwnci a'u ffordd o fyw a'u diwylliant â chysylltiad annatod â'r coed. Yn ystod yr hydref, maent yn byw fel casglwyr bwyd gan gywain y cnau maethlon, y piones, sydd yn y moch coed benywaidd. Gall un teulu hel cymaint ag 8,000 pwys o had ar flwyddyn dda. Cânt eu rhostio i'w bwyta ar y pryd neu eu cadw dan y ddaear at y gaeaf, eu malu'n flawd bras, eu gwneud yn ddiod a'u porthi i'r anifeiliaid. Crêd y bobl wydn yma bod gan y goedwig ei hysbryd ei hun, bod y coed yn sanctaidd a'u bod yn cael eu bendithio'n feunyddiol. Cesglir y pren marw fel tanwydd ond ni fydd coeden byth yn cael ei chwmpo.

Ym Mhrydain, daeth y cas gan fwnci yn boblogaidd ar ôl 1844 pan ddaeth un o'r casglwyr planhigion, William Lobb, â had hyfyw yn ôl o'i daith gyntaf i Chile. Erbyn hyn, roedd llif o blanhigion newydd yn dod i mewn i'r wlad a pherchnogion y plasdai yn cystadlu â'i gilydd am y casgliad mwyaf a gorau o goed a phlanhigion. Efelychu'r ffasiw'n hwn oedd y bobl gyffredin, goelia i. Prin iawn y byddai morwr yn trafferthu i ddod â choed ifanc o Dde America gan y byddai angen gofal yn ystod y fordaith hir ond ni fyddai hyn yn amhosibl, wrth gwrs, yn enwedig i'r capteniaid. Mae'n haws gen i feddwl mai



Rhes o'r goeden 'Cas gan Fwnci': Ucheldir Sir Ddinbych, Ionawr 2001



prynu mewn meithrinfeydd yn agosach adref fydden nhw, rhywbeth yn debyg i ni yn siopa am anrheg yn y maes awyr ar ein ffordd adref o wlad bell. Does dim yn newydd.

Mae angen gair o rybudd. Mae'n goeden ddeniadol yn ei ffordd ei hun, yn ifanc, hyd yn oed mewn gardd fechan ond mae eisiau erwau eang i'w gwerthfawrogi yn ei llawn dwf.

Maldwyn Thomas

Llyfryddiaeth: Lewington & Parker, Ancient Trees, Collins & Brown Cyf. 1999

Cemaes,
Ynys Môn
Ebrill 2004

Annwyl Goronwy

Wedi darllen sylwadau diddorol Bethan Wyn Jones a Dafydd Dafis yn Rhifyn Rhagfyr 2003 o'r Naturiaethwr am eu taith i Goleg Iesu, Rhydychen, fe'm symbylwyd i ail edrych ar lyfr sydd gennyf a llofnod 'Edoardus Llwyd e Col.Iesu 1688' ar yr wyneb ddalen.

Llyfr yr Eidalwr Virunnius Ponticus '*Britannicae Historiae*' yw, sef crynodeb o '*Historia Regum Britanniae*' Sieffre o Fynwy a chrynodeb byr o '*Itinerarium Cambriae*' a '*Cambriae Descriptio*' Gerallt Gymro. Golygwyd y cyfan gan Dr David Powel gyda'i sylwadau ar bob pennod a thraethawd '*De Britannica Historia Recte Intelligenda*' ganddo ar y diwedd. Ynndo, mae'n rhoi cynnig ar gywiro syniadau eithafol a phegynnol Polydore Vergil a Syr John Prise ar hanes Prydain. 'Roedd diddordeb mawr gan Edward Llwyd mewn hanes yn ogystal â 'cherrig' a Gwyddor Natur. Dyna'r rheswm i Edmund Gibson ofyn iddo gyfieithu'r adran ar Gymru o'r Lladin yn '*Britannica*' (1607) William Camden. Cytunodd i wneud hynny ac ychwanegu at y penodau ar siroedd Cymru. Cyhoeddwyd yr argraffiad diwygiedig gyntaf ym 1695.

Un o lyfrau cefndir Edward Llwyd, mae'n debyg oedd '*Britannicae Historiae*'. Byddai'n ddiddorol cael gwybod am ragor o lyfrau o lyfrgell Edward Llwyd.



Wyneb-ddalen 'Britannicae Historiae'. Sylwer ar lofnod Edward Llwyd ar waelod y dudalen.

Ted Huws



Adolygiadau

Adroddiad gwyfynod gogledd orllewin Cymru 2002

John Harold ac Andrew Graham

Cyhoeddir yn breifat gan yr awduron

142 tud. £5.00

Dyma naturiaetha gonest, syml a thrwyadl. Mae angen mwy ohono yng Nghymru ac mae'r adroddiad hwn yn cynnig dogn gwerth chweil i ni, er nad cyfrol i'w chadw ar erchwyn y gwely mohoni efallai. Rhestr sydd yma o'r holl wyfynod gafodd eu cofnodi yng Ngwynedd a Môn yn y flwyddyn 2002, rhestr a fydd o'i hail adrodd yn flynyddol (dyma'r ail) yn gaffaeliad aruthrol i'r sawl sy'n rhwydo pryfed, casglu dail wedi'u mwynloddio gan gynrhon, neu'n gosod trapiau golau i hudo pryfed o'r gwyl a'r nos.

Cefais y pleser o gyfrannu gwybodaeth i'r ddwy gyfrol hon a minnau'n drapiwr golau selog yn yr ardd acw a hefyd yn fy ngwaith bob dydd mewn coed gwern yng ngwarchodfa natur Coedydd Aber. Da yw i ddyn weld ffrwyth ei waith mewn cyd-destun ehangach ond eto yn lleol. A oedd fy nghofnod o ddaigr tywyll *Acronicta tridens* yn fy ngardd yn gywir? Sawl echediad o'r cydyn gwelw *Pterostoma palpina* a geir yng Ngwynedd a Môn bob blwyddyn (gan fod y gweryslyfrau'n honni mai dwy sy'n 'ne Prydain' ac un yn y 'gogledd')? Yn lle y cafwyd nid un ond *tri* unigolyn o *Diasemiopsys ramburialis* yn 2002 (rhywogaeth na chafwyd yng Nghymru erioed o'r blaen – ac sydd angen enw Cymraeg gyda llaw)? Mae'r adroddiad yn codi, neu'n ateb, pob math o gwestiynau.

Ond pa werth i ganmoliaeth heb awgrymu gwelliannau? Mae'r mynor cilgant *Drymonia ruficornis* yn amlwg yn ei absenoldeb o Adroddiad 2002 er i nifer ymddangos yn yr ardal yn ystod y flwyddyn flaenorol yn ôl Adroddiad 2001. Oni fyddai'n ychwanegiad buddiol i werth y cyfrolau i dynnu sylw at wahaniaethau rhwng blynyddoedd (fel y gwnaethpwyd mae'n rhaid dweud gyda'r mewnfudwyr)? Gyda llaw, rhoddwyd mwy nag un cynnig ar enwi'r gwyfyn hwn dros y blynyddoedd diwethaf. Y 'brown cleisiog lloerol' yw un arall; cyfieithiad llythrennol ond derbyniol o'i enw Saesneg *lunar marbled brown*. Mae'n bryd bwrw ati i greu enwau safonol ar fyrder i'r gwyfynod, fel y gwnaeth arloeswyr Oes Fictoria a fathodd yr enwau Saesneg bron ddwy ganrif yn ôl, enwau sydd wedi aros yn ddigyfnewid yn y cyfamser er i'r enwau gwyddonol newid gyda'r gwynt.

Gwnaethpwyd ymdrech lew i roi teilyngdod i'r Gymraeg yn y gyfrol ddiweddaraf trwy gyfieithu'r rhagymadroddion, a defnyddiwyd enwau Cymraeg y rhywogaethau drwyddi draw lle roeddent ar gael. Mae'n anodd gweld sut y gellid gwella ar hynny mewn cyfrol sy'n amlwg yn ceisio ennyn, bodloni a chynnal diddordeb yn y maes hwn yn y ddau draddodiad ieithyddol. Prysured y dydd pan fydd mudiad fel Cymdeithas Edward Llwyd yn cynnal gweithgareddau naturiaethol tebyg yn y Gymraeg, ac yn denu eraill atynt, yn hytrach na bod y Gymraeg, fel mewn cynifer o feysydd eraill, yn gynffon barhaol i'r ci Saesneg.

Ni chynhwyswyd enwau Cymraeg ar nifer o'r rhywogaethau yr ymdriniwyd â hwy gan nad oedd unrhyw un wedi mynd i'r drafferth i'w bathu. Ein Llywydd, Dafydd Dafis, wnaeth y gwaith helaethaf hyd yma a'i waith ef sy'n ymddangos yn yr adroddiadau hyn. Gwaith Cymdeithas Edward Llwyd yw parhau i fathu a safoni'r enwau, fel y gwnaethpwyd eisoes gyda chreaduriaid asgwrn cefn a phlanhigion blodeuol, rhedyn a choed conwydd.



Cyfrifoldeb Cymdeithas Edward Llwyd, mae'n debyg, yn gymaint ag y mae'n gyfrifoldeb i unrhyw un, yw cyd-drefnu gwaith o'r fath ond heb brofiad y rhai sy'n weithgar yn y maes, y rhai a gyfrannodd at y cyfrolau hyn ac sy'n adnabod cymeriad y rhywogaethau dan sylw, ni allwn ddatblygu geirfa Gymraeg sy'n addas, yn ddisgrifiadol ac yn ddefnyddiol. Nid cyfrifoldeb y Gymdeithas yn unig yw hyn ac mae'n bryd i naturiaethwyr o bob cefndir yng Nghymru sylweddoli hynny. Mae'n bryd hefyd i Gymdeithas Edward Llwyd (Cymdeithas Naturiaethwyr Cymru) dderbyn ei chyfrifoldeb tuag at naturiaetha a'i ddatblygiad yn yr iaith Gymraeg a chofleidio'r math o waith a geir yn y cyfrolau hyn o ddifri.

Cyhoeddwyd y cyfrolau hyn yn breifat a gellir eu cael gan yr awduron:

*John Harold, Hen Ardd, Carreg y Garth, Rhiwlas, Bangor, Gwynedd LL57 4HD
neu*

Andrew Graham, Trawscoed, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7TD

Duncan Brown

Adar Môn/Birds of Anglesey

Peter Hope Jones a Paul Whalley

Menter Môn (2004)

596 tud. 32 llun lliw; llawer o luniau du a gwyn. Mapiau

Y testun yn gwbl ddwyieithog

ISBN 0 – 9547358 – 0 – 3

£50 clawr caled, £25 clawr meddal


Darllenais yn rhywle fod o leiaf un llyfr newydd am adar yn cael ei gyhoeddi bob dydd o'r flwyddyn.

Bid a fo am hynny, nid bob dydd y daw llyfr fel hyn o'r wasg yng Nghymru. Y peth cyntaf sy'n taro dyn yw ei ddiwyg a'i faint – 600 tudalen A4 gyda lluniau trawiadol o dri aderyn ar gefndir gwyn ar y clawr.

O droi'r tudalennau, gwelwn yn syth fod y llyfr yn gwbl ddwyieithog gyda'r tudalennau Cymraeg a Saesneg yn wynebu ei gilydd.

O'r 600 tudalen, mae tua'r hanner yn trin a thrafod pob un rhywogaeth yn ei dro. Ceir ymdriniaeth o statws yr aderyn, - magu, presennol drwy'r flwyddyn, mudo yn yr hydref ac ati, a rhoir manylion am gofnodion cynnar lle bo hynny'n berthnasol. Er enghraifft, darllenwn fod y Troellwr Mawr yn gyffredin ar yr ynys ym 1902 ond mai un aderyn yn unig a welwyd rhwng 1977 ac 1999.

Mae rhannau cyntaf y gyfrol yn rhoi i ni fraslun diddorol o'r Ynys. Cawn benodau ar y tirwedd a'r hinsawdd, y newid a fu yn y cynefinoedd dros y canrifoedd, hanes y cyrff adaregol lleol a'r dulliau o restru a chofnodi'r adar, ynghyd â phennod sylweddol ar gadwraeth. Cawn restr o'r lleoedd gorau i wyluo adar ar yr Ynys, ynghyd ag ymdriniaeth fanwl o'r adar dŵr, adar hirgoes, adar môr ac adar tir.



Ar ddiwedd y llyfr, ceir 80 tudalen o atodiadau ac mae llawer o'r rhain ymhlith adrannau mwyaf diddorol y gyfrol. Wyddech chi fod poblogaeth yr Ynys wedi cynyddu o 54,000 ym 1866 i 69,000 ym 1993, tra bod nifer y defaid wedi codi o 50,000 i 398,000 yn ystod yr un cyfnod? Rhestrir 14 o achosion o lygredd gan olew oddi ar arfordir Môn er 1969 a'r nifer o adar a laddwyd ym mhob achos. Darllenwn am yr adar prin hynny y gwyddom iddynt ddianc o gaethiwed, megis y Ciwi – go brin ei fod wedi cerdded yma o Seland Newydd!

Mae yma restr o'r holl enwau lleoedd a enwir yn y testun, ynghyd â'r cyfeirnod ar fapiau'r Arolwg Ordnans. Ceir hefyd gyfres o fapiau yn dangos lleoliad magu tua 80 rhywogaeth yn ystod y cyfnod 1988 – 1990, - mae'r rhain yn amrywio o'r Hwyaeden Lwyd (Gadwall) a'r Gorchwyaden (Teal) gyda dau leoliad yn unig yr un i'r Ysguthan a'r Ji-binc sy'n nythu ym mhob cwr o'r Ynys. Mewn pennod ar wahân, mae Richard Arnold wedi cyfrannu astudiaeth fanwl ar 'Hanes adar Ynys Seiriol' sy'n ffrwyth ymchwil trylwyr iawn.

Mae'n anorffod bod mân frychau mewn gwaith mor gynhwysfawr. Sylwais ar y rhain: gyda pennod (phennod) – wyneb ddalen; Rhestr Systemateg (Systematig) – tud. 118; Baker (1994) – tud. 552, llinell 12: methais â dod o hyd i'r cyfeiriad hwn yn yr un o'r ddwy lyfryddiaeth; ar calchtaen (ar galchfaen) – llun lliw Rhif 31. Mae'r cysodi, y dylunio a'r argraffu'n hynod o lân ond gresyn bod amryw o'r lluniau lliw mor dywyll.

Yn olaf, rhaid talu teyrnged arbennig i waith Ken Owen yn cyfieithu'r cyfan i'r Gymraeg a hynny mewn iaith mor naturiol a graenus. Llongyfarchiadau i'r awduron a'r cyhoeddwyd ar lyfr arbennig iawn. Mae'r cynnwys a'r diwyg yn wych a'r Gymraeg yn cael parch haeddiannol.

Y tro cyntaf i mi groesi'r bont i Fôn ar drywydd yr adar oedd tua 1962 i weld Gwalch y Pysgod ar Lyn Cefni a hynny ar gyfarwyddyd caredig T G Walker. Rydw i'n hollol ffyddiog y bydd y gyfrol *Adar Môn* yn denu llawer ymwelydd arall i'r Ynys.

Mae copïau ar gael £24.99 (clawr meddal) a £49.99 (clawr caled) oddi wrth Menter Môn ar 01248 725700 neu e-bost i adarmon@mentermon.com.

Mae hefyd ar werth mewn nifer o siopau llyfrau lleol.

G. W.

YLI


Gwyn Thomas a Ted Breeze Jones

Gwasg Dwyfor 2003

36 tud. Lluniau lliw

ISBN: 1 870394 89 5 £5.95

Dywed Gwyn Thomas wrthym yn ei ragair mai llyfr ar batrwm tebyg i un **Anifeiliaid y Maes Hefyd** yw hwn. Sonia fel y bu i Ted Breeze Jones anfon *haldiad* o sleidiau ato rhag ofn iddynt ei symblu i ysgrifennu cerddi. Dyna a gawn yn y gyfrol fach hyfryd hon – cyfuniad o ragoriaeth Ted fel naturiaethwr a ffotograffydd a dawn y dyn geiriau. Diolch i Gwyn a theulu Ted am lyfr a fydd yn deyrnged fechan i'w goffadwriaeth.



Pwy na châi ei demtio i godi'r llyfryn o weld y fath anwylddeb ar y clawr. Mae cerdd **Dau Gyw Tylluan** yn cloi fel hyn:

*Ond nefi, welsoch chi
Yn eich byw unrhyw bethau delach
Na dau gyw tylluan fach?*

Ceir yn y gyfrol amrywiaeth o gerddi i fyd natur yn gyffredinol – ac i flodau, adar, anifeiliaid ac ati'n benodol – dwy gerdd ddiffuant iawn i 'Lili'r Dŵr' a 'Bysedd y Cŵn', cerddi gwych yn ymhel ag 'Alarch', 'Aderyn y Bwn', 'Hwyaden', 'Tylluan', 'Ceihog', 'Bod Tinwen', 'Pelicanod', 'Cigfran' ac, wrth gwrs, y ddau gyw tylluan yn nechrau'r llyfr. Cawn gerddi rhagorol ym myd y 'Cobra', 'Draenogod', 'Mochyn Teiars', 'Wiwer Lwyd' a'r hiwmor yn gyson amlwg. Wrth gwrs, nid oes yn rhaid darllen llawer ar waith Gwyn Thomas i synhwyro ei hoffter o hiwmor. Daw hyn i'r amlwg wrth iddo ymdrin â llawer o'r cerddi hyn yn y person cyntaf. Cewch fodd i fyw wrth ddarllen 'Rwan-ta Taid', 'Sym' hi', 'Pa din yw hon a welaf?', 'Dyma Ni'n Tri', 'Cuddliw', 'Pwy yw Hwn?'

Nid oes ofod i ddyfynnu'n helaeth ond ni allaf ymatal rhag cynnig tamaid bach i aros pryd drwy gyfrwng '**Cuddliw**'.

*“Rydw i yma,
Coeliwch neu beidio
Rydw i yma yn fa'ma,
Yn rhywla*

*“Welwch chi fi?
Troellwr Mawr ydw i
Ac arbenigwr ar ymguddio,
Hen law ar gamafflajio –
Fy lliwiau i, 'dach chi'n dallt,
Yn ymdoddi'n wyrthiol i'r cefndir.*

*“A dweud y gwir
Mi fydda i weithia'
Yn cael dipyn o drafferth,
'Neno'r dyn,
I ddod o hyd i mi fy hun.’*

Mae *Myrdd o Ryfeddodau* yn y môr meddai Gwyn Thomas ac ambell gerdd arall o'i eiddo yn canu clodydd 'Yr Ysgwrn' – gafaelgar iawn! – 'Y Moelwyn Mawr', 'Migneint', 'Tryweryn' - dirdynnol yn wir! – 'Cyfeillion Bro Ffestiniog' a heb anghofio'r 'Taj Mahal' â'i ryfeddod yntau.

Rhywle tua diwedd y gyfrol fach gyffrous hon, mae Gwyn Thomas yn cyflwyno 'Y Mae yna Amserau' i'w ddarllenwyr:

*Y mae yna amserau
Ym mywydau pawb ohonom
Pan gawsom ni gip ar rywbeth
Tu draw i gnawd
Tu draw i amser.*



Brysiwch i brynu'r gyfrol i chi gael darllen ymlaen! Mae hi'n ddigon o ryfeddod!
Gwerthfawrogrir pob dawn a'i gwnaeth yn bosibl!

Gron Ellis

Blwyddyn Iolo

Iolo Williams

Gwasg Gwynedd (2003)

166 tud. 16 tud. o luniau lliw; clawr meddal

ISBN 0 86074 199 0 £7.95

Mae'r radio a'r teledu'n agor y drws i lawer un i 'ddod yn un o'r teulu'. Un felly yw Iolo Williams, - ei bersonoliaeth hawddgar a'i frwdfrydedd heintus yn ein denu i'w wyllo ac i ddal ar ei lais.

Dyddiadur blwyddyn sydd yma gyda phennod i bob mis. Mae'r awdur yn ein tywys o gwmpas cefn gwlad Cymru gyda'i lygaid craff yn sylwi ar y tirwedd a'r creigiau, y blodau a'r coed, y pryfed a'r ffyngau, y mamaliaid a'r ymlusgiaid ac, wrth gwrs, yr adar. Dyn yr adar yw Iolo, - bu'n gweithio i'r RSPB am bymtheng mlynedd ac mae wedi gwirioni'n lân ar unrhyw beth sy'n gwisgo plu!


Er nad henwr yw'r awdur, (mae'n dal i chwarae rygbi!), mae ganddo flynyddoedd o brofiad yn crwydro cefn gwlad a daw'r profiad hwnnw â ni wyneb yn wyneb â rhai o gyfrinachau byd natur. Gan fy mod yn ysgrifennu'r sylwadau hyn ym mis Mehefin, dyma droi i'r bennod ar gyfer y mis hwnnw a sylwi ar y geiriau canlynol:

” teithio ar hyd ffordd gefn yn ymyl Aberhonddu a gweld pedair gwenci (weasel) fach gochfrown yn croesi'r ffordd o mlaen i. Stopiais yn syth ac wrth chwibanu'n isel, llwyddais i gael yr anifeiliaid bach i ddod allan o'r wal gerrig i syllu arna i. Buont yno am bron i ddeng munud yn sefyll ar eu coesau ôl fel pe'n ceisio penderfynu a oedd y 'peth' mawr yma oedd yn gwneud sŵn rhyfedd yn mynd i wneud pryd o fwyd da ai peidio”.

Dyna'r naturiaethwr yn siarad! Wrth bori drwy'r llyfr down i nabod byd natur, nabod Cymru a nabod Iolo (a'i gŵn!)

Mae'r 16 tudalen o luniau lliw gan Steve Phillips yn ddeniadol iawn ac yn ychwanegu cryn dipyn at ddi-ddordeb y gyfrol. Dyma lyfr i'w fwynhau yn y gadair freichiau ac i'ch denu allan i'r byd go iawn yn ogystal.

Cofiwch ei brynu.



G. W



Blaenau Ffestiniog
GWYL GERDDED A PHYSGOTA

MEDI 4ydd a'r 5ed 2004



AMRYWIAETH O DEITHIAU LLEOL, DAN ARWEINIAD
Gweithgareddau pysgota a chystadleuaeth
Trefnwyr *Cyfle Ffestiniog Cyf.*

Ffôn 01766 831783

www.ffestiniog.org.uk



**Nod Menter Maldwyn
yw hyrwyddo'r
Gymraeg yn Sir
Drefaldwyn.**

Hoffech chi drefnu taith yn yr ardal gan dynnu Cymry Cymraeg a dysgwyr at ei gilydd ac ehangu aelodau'r Gymdeithas? Mae gynnon ni lawer o droeon diddorol fel y gyddoch mae'n siwr ym Maldwyn ond mae angen mwy o gyfleon i siarad yr iaith a throsglwyddo gwybodaeth byd natur yn ogystal yn yr iaith, a dyma lle mae modd i chi ein cynorthwyo.

Am ragor o wybodaeth ar sut y medrchw wneud hynny, cysylltwch ag

Arfon Hughes Cydlynnydd Menter Maldwyn
ar **01686 622908** neu

www.mentermaldwyn.co.uk
neu yn yr Hen Goleg, Ffordd yr Orsaf, Y
Drenwydd, Powys. SY16 1BE



Gwesty'r Hand Llangollen

Busnes • Pleser • Cynhadledd • Priodas • Gwyliau • Parti Penblwydd

- 58 o ystafelloedd a phob un yn en suite gyda theledu lliw a chyfleusterau i wneud te a choffi.
- Rhaglen o adloniant, gyda nosweithiau Cymreig, a Chôr i ymuno a'r gwesteion am dipyn o hwyl
- Mae'r gwesty'n enwog am ei fwyd cartref - yn y bar neu ym mwyty hardd Dinas Bran gyda golygfeydd dros yr afon.
- Digonedd o le i barcio am ddim. Ardderchog ar gyfer y rhai sy'n ymweld am y dydd, neu'r rhai sy'n aros am noson neu fwy.
- Rydym yn cynnig breswast, cinio ganol dydd, te a phryd min nos ar gyfer person unigol neu grwpiau yn ôl y galw.

Prisiau 2004 (yn ôl yr adeg o'r flwyddyn)

Gwely a Brecwast rhwng £46.00 a £65.00 (sengl), £70.00 a £90.00 (dwbl).

Gwesty'r Hand, Stryd y Bont, Llangollen LL20 8PL
Ffon: 01978 860303 Ffacs: 01978 861277
e-bost: info@hand-hotel-llangollen.com
rhyngwyd: www.hand-hotel-llangollen.com





Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn darparu amrywiaeth o wasanaethau

CYNLLUNIO

CADWRAETH

GWYBODAETH I YMWELWYR

**CANOLFAN ASTUDIAETHAU AMGYLCHEDDOL
A GWASANAETHAU ADDYSG PLAS TANY BWLCH**

Cysylltwch â'r swyddfa ym Mhenrhyndeudraeth am wybodaeth a chyngor
neu cysylltwch â'n gwefan ar www.eryri-npa.gov.uk


Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6LF
Ffôn: 01766 770274 Ffacs: 01766 771211 e-bost: parc@eryri-npa.gov.uk



Daeth y gyfrol gyntaf *Anifeiliaid y Maes Hefyd* a dwy ddawn adnabyddus ynghyd i greu cyfrol unigryw – dawn y dewin geiriau Gwyn Thomas, a lluniau gwyth Ted Breeze Jones o fyd natur.

Dyma'r ail gyfrol – YLI – y mae yma fyrdd o ryfeddodau!

36 tudalen lliw llawn. £5.95



YLI ... DAU LYFR NATUR DIFYR!

Yn eich siop lyfrau lleol nawr

Hanes bywyd a gwaith
J. Lloyd Williams – y gwerinwr a'r
ysgolhaig, y gwyddonydd a'r athro,
y llenor a'r Cymro.


Roedd yn fotanegydd wrth reddf gyda
diddordeb arbennig ym mlodau'r
mynydd ac yn ei elfen yn sgrialu dros y
creigiau yn chwilio am blanhigion
Arctig-Alpaidd!

168 tudalen (8 mewn lliw). A5.
£12.50



Gwasg Dwyfor

Pen-y-groes, Caernarfon • Ffôn: 01286 881911



Canolfan Astudiaethau Amgylchedd Parc Cenedlaethol Eryri

Plas Tan y Bwlch

Snowdonia National Park Environmental Studies Centre

Yn ogystal â'r rhaglen o gyrsiau y byddwn ni'n eu trefnu, rydym yn trefnu ac yn cynnal cyrsiau ar ran grwpiau o bob cwr o Brydain a'r byd, ar nifer o wahanol bynciau. Mae cyfleusterau helaeth Plas Tan y Bwlch hefyd ar gael i grwpiau a sefydliadau ar gyfer eu cynadleddau, eu seminarau neu eu cyrsiau hyfforddi nhw eu hunain.

Along with our own programme of courses, we organise and run courses for groups from all over the UK and overseas, these are tailored to your specific interests. The extensive facilities at Plas Tan y Bwlch are also available for groups and organisations to book for their own conferences, seminars or training courses.

**Am fanylion pellach cysylltwch â: / For further information please contact:
Plas Tan y Bwlch, Maentwrog • Blaenau Ffestiniog, LL41 3YU
Ffôn • Tel: 0871 871 4004 Ffacs • Fax: 01766 772609
e-bost • e-mail: plas@eryri-npa.gov.uk
www.plastanybwllch.com**

Dosberthir yn rhad i aelodau Cymdeithas Edward Llwyd
Pris i'r cyhoedd £2.50

Cyhoeddir Y Naturiaethwr yn rhannol trwy gymhorthdal
gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru

